

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)
Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

Tachwedd 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddCyllid@cynulliad.cymru
Twitter: [@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)
Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

Tachwedd 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau newydd ar gyfer goruchwyllo llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Jocelyn Davies (Cadeirydd)

Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Peter Black

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



Christine Chapman

Llafur Cymru
Cwm Cynon



Mike Hedges

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Alun Ffred Jones

Plaid Cymru
Arfon



Ann Jones

Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Julie Morgan

Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



Nick Ramsay

Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

Dirprwyodd yr aelodau canlynol ar gyfer Ann Jones yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Mick Antoniw

Llafur Cymru
Pontypridd



Jenny Rathbone

Llafur Cymru
Canol Caerdydd

Cynnwys

Argymhellion.....	5
1. Cyflwyniad	9
2. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth.....	13
3. Rhan 2 - Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)	21
4. Pwyllgorau ac is-bwyllgorau; a Gweithdrefn	28
5. Prif swyddogaethau ACC.....	31
6. Dirprwyo swyddogaethau.....	40
7. Cyfarwyddiadau Cyffredinol	49
8. Siarter safonau a gwerthoedd	53
9. Cynllun Corfforaethol ac Adroddiad Blynyddol	59
10. Archwilio.....	64
11. Rhannau 3 - 9 Ffurflenni Treth, Ymchwiliadau, Cosbau, Llog, Talu a Gorfodi, Adolygiadau ac Apelau, Ymchwilio i Droseddau	66
12. Goblygiadau ariannol y Bil	73
Atodiad A - Rhyngweithio rhwng trethi datganoledig a threthi ar draws y DU	83
Atodiad B - Tystion	87
Atodiad C - Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig	89

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil. (Tudalen 20)

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gynnal ymgyrch ehangach i godi ymwybyddiaeth er mwyn annog ymwybyddiaeth gyhoeddus eang o Awdurdod Cyllid Cymru a threthi datganoledig cyn 2018. (Tudalen 20)

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell cryfhau'r Bil er mwyn sicrhau bod Awdurdod Cyllid Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a dylid darparu'n benodol ar gyfer hyn ar wyneb y Bil. (Tudalen 27)

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 4(1)(d) o'r Bil gael ei diwygio i sicrhau bod yr aelodau o staff a benodir i'r bwrdd yn cael eu gwneud drwy broses o enwebu gan y Prif Weithredwr i ddechrau ac yna drwy gynnal pleidlais staff pan fydd lleoedd gwag yn codi yn y dyfodol. (Tudalen 27)

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Bil gynnwys mwy o fanylion am y cyfnod penodi ar gyfer aelodau anweithredol a byddai'n argymell y model a bennwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 fel enghraifft dda, ond dylai penodiadau anweithredol fod am gyfnod o ddim mwy na phedair blynedd ac ni ellir penodi person fwy na dwywaith. (Tudalen 27)

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r darpariaethau yn Rhan 2 mewn perthynas â'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd fod yn gyson oni bai bod rheswm dilys dros gael darpariaethau gwahanol. (Tudalen 27)

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid diwygio adran 8(4) sy'n gwneud darpariaeth i Brif Weithredwyr "gael eu penodi gan ACC" (yn dilyn y penodiad cyntaf gan Weinidogion Cymru) er mwyn sicrhau mai'r aelodau anweithredol sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar benodi (yn hytrach na chyflogeion sy'n aelodau o'r Bwrdd). (Tudalen 27)

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio'r Bil i sicrhau bod cworwm y Bwrdd yn rhagnodi mwyafrif o aelodau anweithredol. (Tudalen 30)

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai o leiaf un aelod anweithredol fod yn aelod o bob pwyllgor/is-bwyllgor, oni bai ei fod yn bwyllgor/is-bwyllgor nad yw'n gwneud penderfyniadau. (Tudalen 30)

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Awdurdod Cyllid Cymru baratoi cynllun cyhoeddi ac y dylai'r holl benderfyniadau a wneir gan bwyllgorau/is-bwyllgorau Awdurdod Cyllid Cymru fod ar gael yn gyhoeddus. Os oes rheswm dilys dros beidio â chyhoeddi penderfyniad, dylai'r rhesymau dros hyn fod ar gael yn gyhoeddus yn unol â'r cynllun cyhoeddi. (Tudalen 30)

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Nodiadau Effaith a Gwybodaeth Treth (neu ddogfennau cyfatebol) gael eu cyflwyno ar gyfer pob amrywiad sylweddol i drethi datganoledig. Lle y bo'n briodol dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y nodiadau hyn yn cael eu paratoi ochr yn ochr â'r cyhoeddiadau cyllideb. Dylai'r nodiadau hyn gael eu hadolygu gan Awdurdod Cyllid Cymru bob tair blynedd o leiaf a bod yn destun proses graffu gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad cyn cytuno ar gyllideb Awdurdod Cyllid Cymru. (Tudalen 39)

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai adran 12 gael ei diwygio i egluro bod rhai swyddogaethau pwysig (fel cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol, yr Adroddiad Blynyddol, y Cyfrifon blynyddol a'r Datganiad Treth blynyddol) yn cael eu neilltuo fel cyfrifoldeb Awdurdod Cyllid Cymru ac na ddylid eu dirprwyo i'r staff. (Tudalen 39)

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod llinellau atebolrwydd clir yn cael eu sefydlu, drwy femorandwm cyd-ddealltwriaeth neu gytundeb lefel gwasanaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a'r cyrff dirprwyedig sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli trethi. Dylai'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth neu'r cytundeb lefel gwasanaeth nodi safonau clir ar gyfer ymdrin â threthdalwyr, (Tudalen 48)

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, lle mae Awdurdod Refeniw Cymru yn dirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau i sefydliad/sefydliadau, y dylid ystyried sicrhau bod y sefydliad/sefydliadau'n darparu lefel uchel o arbenigedd i drethdalwyr Cymru, gan gynnwys ystyried darpariaethau cyfrwng Cymraeg a nodi darpariaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg mewn Datganiad o Safonau Gwasanaeth. (Tudalen 48)

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i atal Llywodraeth Cymru rhag ymyrryd ag Awdurdod Cyllid Cymru o ran arfer ei swyddogaethau gweithredol. (Tudalen 52)

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i'r Siarter gyfeirio'n benodol at:

- wasanaeth o ansawdd i'r trethdalwr;
- ei pherthnasedd i gyrff datganoledig sydd â chyfrifoldeb am gasglu a rheoli trethi. (Tudalen 58)

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Siarter gyntaf gael ei chyhoeddi cyn bod y trethi perthnasol yn cael eu datganoli'n ffurfiol i Gymru ym mis Ebrill 2018. (Tudalen 58)

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio fel bod:

- adran 25(2)(a) yn rhoi'r geiriau "glynu wrth" yn lle'r gair "ymgyrraedd";
- y gofyniad o dan adran 25(3)(b) i adolygu'r Siarter "o bryd i'w gilydd" yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer adolygiad o leiaf bob pum mlynedd. (Tudalen 58)

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio adran 26(2) i sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys mesurau perfformiad allweddol. (Tudalen 62)

Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 27 o'r Bil nodi y dylai'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach na 31 Awst i sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gael o fewn cyfnod amser penodol i sicrhau atebolrwydd, tryloywder a chraffu effeithiol ar weithrediadau Awdurdod Cyllid Cymru. (Tudalen 62)

Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi Pwyllgor i graffu ar Awdurdod Cyllid Cymru. (Tudalen 63)

Argymhelliad 22. Mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio adran 30(3) er mwyn sicrhau bod geiriad y ddarpariaeth archwilio yn y Bil yn gyson â'r ddarpariaeth archwilio ar gyfer cyfrifon Gweinidogion Cymru fel y'i nodir yn adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. (Tudalen 65)

Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 32(3)(a) ynglŷn â chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â llofnodi'r cyfrifon gyfeirio'n benodol at y cyfrifon blynyddol a'r Datganiad Treth blynyddol. (Tudalen 65)

Argymhelliad 24. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Awdurdod Cyllid Cymru yn cyhoeddi Datganiad o Ymarfer fesul treth i sicrhau hyblygrwydd yn achos trethi unigol wrth ddarparu sicrwydd ynghylch amserlenni i ddefnyddwyr gwasanaethau. (Tudalen 72)

Argymhelliad 25. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth ymdrin â chwynion yn erbyn Awdurdod Cyllid Cymru ac mewn perthynas â threfniadau tribiwnlys ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig ac yn cyflwyno gwelliannau os bydd hynny'n briodol. (Tudalen 72)

Argymhelliad 26. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r diffiniad o wobrau gael ei egluro ar wyneb y Bil. (Tudalen 82)

Argymhelliad 27. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i sicrhau na chaniateir i Awdurdod Cyllid Cymru drin gwobrau fel didyniad o'r symiau a delir i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru. (Tudalen 82)

Argymhelliad 28. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid rhoi darpariaeth a fyddai'n trin Awdurdod Cyllid Cymru fel "person perthnasol" ychwanegol yn adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn lle adran 22 o'r Bil. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau os bydd diwygiad i adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei gytuno gan y Cynulliad Cenedlaethol, y byddai'r Bil yn gallu cael ei basio yng Nghyfnod 4. (Tudalen 82)

Argymhelliad 29. Os nad yw'n bosibl cael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyllideb Awdurdod Cyllid Cymru yn cael ei nodi ar wahân a'i neilltuo yng nghynnig blynyddol cyllideb Llywodraeth Cymru. (Tudalen 82)

1. Cyflwyniad

1. Ar 13 Gorffennaf 2015, cyflwynodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (y Gweinidog), Jane Hutt AC, y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil.¹ Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad am y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Gorffennaf 2015.²

2. Yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2015, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) i ystyried ei egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheolau Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn 27 Tachwedd 2015.

Telerau craffu

3. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer ei ymchwiliad Cyfnod 1:

4. "Ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth;

- Wrth ddod i farn ar y mater hwn, efallai y byddwch am ystyried Rhannau unigol o'r Bil:

- Rhan 2: Awdurdod Cyllid Cymru - gan gynnwys sefydlu corff cyhoeddus newydd; aelodaeth o fwrdd Awdurdod Cyllid Cymru; ei phrif swyddogaeth, dirprwyo swyddogaethau a chyfarwyddyd; pwerau statudol Awdurdod Cyllid Cymru; gwybodaeth warchoddedig am drethdalwr; a threfniadaeth a threfniadau llywodraethu.

- Rhan 3: Ffurflenni treth, ymholiadau ac asesiadau- yn cynnwys dyletswyddau trethdalwyr i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel; ffurflenni treth; ymholiadau Awdurdod Cyllid Cymru ac atgyfeirio at dribiwnlys yn ystod ymholiad;

¹ Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?IId=12989

² Datganiad i'r Cyfarfod Llawn, 14 Gorffennaf 2015: www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3179&assembly=4&c=Record%20of%20Proceedings#234466

penderfyniadau ac asesiadau Awdurdod Cyllid Cymru; hawlio am ymwared treth mewn achos o asesu gormodol neu dreth a ordalwyd;

- Rhan 4: Pwerau Ymchwilio Awdurdod Cyllid Cymru - gan gynnwys pwerau Awdurdod Cyllid Cymru i wneud gwybodaeth a dogfennau yn ofynnol; cyfyngiadau ar hysbysiadau gwybodaeth; archwilio mangreoedd ac eiddo arall.
 - Rhan 5: Cosbau - gan gynnwys cosbau am fethu â chyflwyno ffurflenni treth, anghywirdebau yn ymwneud â threfniadau cadw cofnodion a threfniadau talu'n ôl, ac yn ymwneud ag ymchwiliadau; talu cosbau; ac atodol;
 - Rhan 6: Llog - yn cynnwys llog ar symiau sy'n daladwy i Awdurdod Cyllid Cymru a ganddi; a chyfraddau llog;
 - Rhan 7: Talu a gorfodi - gan gynnwys talu ac ardystio dyled; ac adfer;
 - Rhan 8: Adolygiadau ac apelau - gan gynnwys penderfyniadau apeladwy; adolygiadau; apelau; canlyniadau adolygiadau ac apelau; a chytundebau setlo;
 - Rhan 9: Ymchwilio i droseddau - gan gynnwys pwerau i ymchwilio i droseddau; enillion troseddau; a rheoleiddio pwerau ymchwilio;
 - Rhan 10: Darpariaethau terfynol - yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol; rheoliadau; dyroddi hysbysiadau; a rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill i Awdurdod Cyllid Cymru.
- unrhyw rwystrau posibl o ran rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
 - a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
 - goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol);
 - priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)."

Dull gweithredu'r Pwyllgor

5. Rhwng 15 Gorffennaf 2015 ac 8 Medi 2015, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus i lywio ei waith, yn seiliedig ar y cylch gorchwyl y cytunwyd arno. Daeth 16 o ymatebion i law ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.³
6. Yn ychwanegol, cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad i randdeiliaid a sesiynau tystiolaeth lafar gyda nifer o dystion. Mae manylion ar gael yn Atodiad B.
7. Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi manylion casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei ymchwiliad.
8. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ei waith. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar i'w Gynghorydd Arbenigol, Lakshmi Narain, am ei gyngor a'i gyfarwyddyd wrth ystyried y maes cymhleth hwn.

³ Ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus:
www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=183

Ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid o'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

Rhwng Gorffennaf a Tachwedd 2015 cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ei waith craffu ar y Bil. Mae'r ffigurau isod yn cyflwyno'r gwahanol ddulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd.

16

O YMATEBION I'R
YMGYNGHORIAD



10


SESIWN
DYSTIOLAETH

(GAN GYNNWYS 2 GYDA GWEINDOG CYLLID A BUSNES Y LLYWODRAETH)



29

O ARGYMHELLION
GAN Y PWYLLGOR



12

O RANDDEILIAID
MEWN DIGWYDDIAD

10

SEFYDLIAD
WEDI MYNYCHU
CYFARFODYDD Y
PWYLLGOR



8:25

AWR O DRAFODAETHAU
CYHOEDDUS Y
PWYLLGOR

2. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Cefndir

9. Rhoddodd Deddf Cymru 2014⁴ gymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu dros feysydd datganoledig o drethiant a rhoddodd fframwaith clir ar gyfer yr opsiynau polisi o ran trethi newydd ar drafodiadau sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir a threth ar waredion i dirlenwi.⁵

Y Papur Gwyn

10. Ar 23 Medi 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ei Bapur Gwyn, *Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru*.⁶ Nododd y Papur Gwyn:

“O fis Ebrill 2018 bydd angen i Gymru fod â chyfundrefn effeithlon ac effeithiol, lwyr weithredol, i gasglu a rheoli'r ddwy dreth newydd i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu dod â deddfwriaeth ar gasglu a rheoli trethi gerbron yn gyntaf, yn arbennig er mwyn darparu digon o amser ar ôl cymeradwyo unrhyw ddeddfwriaeth i weithredu a sefydlu cyfundrefn dreth effeithiol.”⁷

11. Aeth y Papur Gwyn ymlaen i nodi:

“Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai pwerau casglu a rheoli trethi gael eu breinio mewn corff cyhoeddus newydd sydd â chyfansoddiad cyfreithiol, a gâi ei alw'n Awdurdod Cyllid Cymru.”⁸

12. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Rhagfyr 2014 a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion.⁹ Cafwyd cefnogaeth eang ar gyfer:

- sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a fyddai'n annibynnol ar Weinidogion Cymru o ran ei weithrediad;
- cyflwyno Siarter Drethdalwyr;

⁴ www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/29/contents/enacted

⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 11

⁶ gov.wales/consultations/finance/devolved-taxes/?skip=1&lang=cy

⁷ Papur Gwyn, casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, paragraff 1.3

⁸ Papur Gwyn, casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, paragraff 2.8

⁹ <http://gov.wales/docs/caecd/consultation/150210-devolved-responses-cy.pdf>

- y set graidd arfaethedig o ddyletswyddau ACC;
- y rhwymedigaethau arfaethedig ar drethdalwyr;
- y byddai angen i bwerau tebyg i'r rhai sydd ar gael i awdurdod treth y DU fod ar gael i ACC.

13. Mae rhai materion a godwyd yn y Papur Gwyn nad ydynt wedi'u cwmpasu yn y Bil, gan gynnwys:

- sut i ddiffinio a gweithredu Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd i gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cynlluniau osgoi talu treth; ac
- Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod gan ddefnyddio trydydd parti i helpu i ddatrys anghydfod treth.

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i gasglu trethi datganoledig

14. Wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Bil, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i gasglu trethi datganoledig gyda'r nod o lunio barn ar ba sefydliadau a oedd fwyaf priodol i gasglu trethi datganoledig yn y tymor byr a'r tymor hwy.

15. Ar 27 Mai 2015, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad¹⁰ a chyhoeddodd y Gweinidog ymateb ysgrifenedig ar 1 Gorffennaf 2015.¹¹ Yn yr adroddiad hwnnw gwnaeth y Pwyllgor argymhellion amrywiol, gan gynnwys:

- cyhoeddi costau gweinyddu casglu trethu i ganiatáu penderfyniadau ynghylch pa sefydliad ddylai gasglu trethi datganoledig;
- rheoli'r system drethi mewn ffordd integredig, gyda'r Gweinidog Cyllid yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am holl drethi Cymru;
- ni ddylai'r dull casglu trethi fod yn wahanol i ddull y DU oni bai bod rhesymau clir ar gyfer gwneud hynny;
- yr angen am benderfyniad ynghylch a ddylid creu comisiwn ariannol i Gymru er mwyn cynorthwyo gyda rhag-weld derbyniadau treth.

¹⁰ www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10214/cr-ld10214-w.pdf

¹¹ www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10275/gen-ld10275-w.pdf

Diben y Bil

16. Diben y Bil yw rhoi'r fframwaith cyfreithiol sydd ei angen ar waith ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol. Yn benodol, mae'r Bil yn darparu ar gyfer:

- sefydlu ACC a fydd yn casglu ac yn rheoli trethi datganoledig yn bennaf;
- cyflwyno'r dyletswyddau a'r pwerau priodol i ACC (a dyletswyddau a hawliau cyfatebol i drethdalwyr ac eraill) mewn perthynas â chyflwyno ffurflenni treth a chynnal archwiliadau ac asesiadau er mwyn galluogi'r Awdurdod i nodi a chasglu'r swm priodol o dreth ddatganoledig sy'n ddyledus gan drethdalwyr;
- pwerau gorfodi ac ymchwilio sifil cynhwysfawr, gan gynnwys pwerau sy'n caniatáu i ACC ofyn am wybodaeth a dogfennau a chael mynediad at safleoedd a mathau eraill o eiddo er mwyn eu harchwilio;
- dyletswyddau ar drethdalwyr i dalu cosbau a llog mewn amgylchiadau penodol;
- hawliau i drethdalwyr ofyn am adolygiadau mewnol o rai o benderfyniadau ACC ac i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau o'r fath; ac
- cyflwyno pwerau gorfodi troseddol ar ACC.¹²

17. Y Bil hwn yw'r cyntaf o dri bil treth arfaethedig. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi:

“Bydd y Bil yn cael ei ddilyn gan ddeddfwriaeth drethi benodol i bennu trethi newydd ar gyfer Cymru – Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi. Bydd angen ystyried darpariaethau'r Bil fel rhan o'r pecyn deddfwriaethol ehangach hwn yn y pen draw.”¹³

Cyhoeddiad y Gweinidog ar y darparwyr sydd orau ganddi

18. Ar 30 Mehefin 2015, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi'r darparwyr a oedd yn well gan Lywodraeth Cymru o ran casglu'r trethi datganoledig. Yn ei datganiad cadarnhaodd mai'r ffordd orau ymlaen yn ei barn hi oedd i ACC weithio gyda Chyllid

¹² Memorandwm Esboniadol, paragraff 2

¹³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 1

a Thollau Ei Mawrhydi (CThem) i gasglu a rheoli'r Dreth Trafodiadau Tir.¹⁴

19. Mewn perthynas â chasglu Treth Gwarediadau Tirlenwi, dywedodd y Gweinidog y byddai ACC yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau casglu a rheoli ac y byddai'n dirprwyo cydymffurfio a gorfodi Treth Gwarediadau Tir i Cyfoeth Naturiol Cymru.¹⁵

20. Dywedodd y Gweinidog mai ei bwriad oedd adolygu'r trefniadau dirprwyo a roddir ar waith o fis Ebrill 2018 ar ôl rhwng tair a phum mlynedd o weithredu.¹⁶

Tystiolaeth gan ymatebwyr

Diben y Bil

21. Roedd cefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol y Bil ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu lefel yr ymgysylltu gan y Gweinidog wrth ddatblygu'r Bil.

22. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi cyflwyno'r Bil ac yn cydnabod ei bod yn angenrheidiol sefydlu'r fframwaith cyfreithiol sy'n ofynnol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol.¹⁷

23. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) e:

“WLGA has long been supportive of greater devolution as we believe that decisions about services and how they are delivered, managed and funded should be taken as close to the point of delivery as possible. The ability for the Welsh Government to be responsible for these elements of taxation in Wales will enhance accountability with the electorate.”¹⁸

24. Croesawodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr y ffaith bod y Bil wedi'i ddrafftio i gynnwys darpariaethau sylweddol ar wyneb y Bil yn hytrach na'u symud i atodlenni. Maent yn argymhell y dylai'r dull hwn gael ei fabwysiadu ar gyfer Biliau yn y dyfodol.¹⁹

¹⁴ gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/taxes/?skip=1&lang=cy

¹⁵ *ibid*

¹⁶ *ibid*

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 312, 1 Hydref 2015

¹⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig TCM 15

¹⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 09

Cysondeb y system dreth â system y DU

25. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan gynnwys CThEM, Cyfoeth Naturiol Cymru a Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, yn cytuno y byddai mabwysiadu dull cyson o ran system dreth y DU o fudd i drethdalwyr.

26. Dywedodd CThEM fod llawer o gynnwys y Bil yn adeiladu ar ddeddfwriaeth bresennol Llywodraeth y DU sy'n berthnasol ar gyfer yr un dibenion. Roedd o'r farn y byddai hyn yn gwneud y broses o drosglwyddo i'r trethi newydd yn fwy syml i gwsmeriaid a'i bod yn dilyn dull yr Alban. Dywedwyd bod y prosesau a'r ddeddfwriaeth sy'n sail i CThEM yn cael eu deall yn dda gan gynghorwyr a chyrff proffesiynol.²⁰

27. Roedd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr o'r farn y dylai unrhyw amrywiad yn y ddeddfwriaeth gael ei ddefnyddio os oes mantais o ran cost, symleiddio neu, yn wir, o ran ymddygiad.²¹ Aeth ymlaen i ddweud:

“it's really important that we seek to change as little as possible from the perception of the taxpayer, or, indeed, the tax collector. So, any change should be either to simplify or to improve.”²²

28. Roedd Sefydliad Bevan yn cytuno gan ddweud:

“We welcome that proposal that tax policies should not diverge from UK operational processes and arrangements without good reason. In the event that new taxes are introduced in addition to LTT and LDT, it is important that the issue of comparability of operational processes and arrangements does not obstruct compliance.”²³

Ymwybyddiaeth gyhoeddus o gwmpas ac effaith y Bil

29. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol ymhlith ymatebwyr oherwydd bod y ddwy dreth ddatganoledig arfaethedig, y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn effeithio ar fusnesau a gweithwyr

²⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 13

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 196, 7 Hydref 2015

²² *ibid*

²³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 04

proffesiynol yn bennaf. Dylid targedu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd at y grwpiau hyn i ddechrau.

30. Dyma oedd y dull a gymerwyd gan Gyllid yr Alban a ddywedodd ei fod wedi gweithio'n galed iawn gyda dwy gymuned benodol, cyfreithwyr mewn perthynas â threth trafodiadau tir ac adeiladau, a gweithredwyr safleoedd tirlenwi, mewn perthynas â threth dirlenwi.²⁴

31. Roedd Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig yn teimlo bod aelodau'r cyhoedd a busnesau yn debygol o glywed am newidiadau treth pan fyddant yn delio â chyfrifydd. Felly, roedd yn teimlo bod ymwybyddiaeth ddigonol yn y proffesiwn yn bwysig gan y byddant yn gallu gweithredu fel sianeli i drosglwyddo gwybodaeth i'r trethdalwyr yn fwy cyffredinol.²⁵

32. Roedd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr o'r farn mai dim ond pan fydd newid sylfaenol y bydd angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gyfer trethdalwyr cyffredinol. Gwnaethant nodi:

“The danger with tax devolution is that it's overcomplicated or that we try and do too much with it...If Wales generally follows the same principles and the same approach, then the best way for the public is not actually to be aware that the changes happen but simply to be paying the taxes and for those taxes to be collected.”²⁶

33. Nododd y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel y diffyg diddordeb cyffredinol yn ymwneud â threth neu ddiffyg ymwybyddiaeth ac awgrymwyd y byddai'r Siarter [a drafodir ym mhennod 8] yn gyfle da i godi ymwybyddiaeth o Awdurdod Cyllid Cymru:

“so that, in future, if other taxes are devolved, people are aware of the values and the standards and what their role is.”²⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog

34. Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd dewis arall yn lle deddfwriaeth gan ddweud os ydym am godi trethi datganoledig yng Nghymru, y bydd angen inni ddeddfu ar gyfer hynny.²⁸ Dywedodd fod

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 1 Hydref 2015

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 182, 7 Hydref 2015

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 184, 7 Hydref 2015

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 419, 1 Hydref 2015

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 17 Medi 2015

darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth dreth y DU a'r Alban ac yn gyson â'r ddeddfwriaeth honno yn gyffredinol.²⁹

35. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Deddf Cymru 2014 yn rhoi cymhwysedd newydd i'r Cynulliad, gan ychwanegu trethi datganoledig fel pwnc newydd ac nad oes darpariaethau yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol cael caniatâd Llywodraeth y DU.³⁰

36. Mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid, dywedodd:

“We’ve engaged widely across Wales, listening to the views, questions and concerns raised by the public, stakeholders and business, and, of course, you are aware of my tax advisory group and tax forum and tax expert group, which have contributed greatly to the process. I think our approach to devolved taxes has to be based on clear principles—and I’ve laid those out: fairness, simplicity, supporting jobs and growth, stability and certainty.³¹

Ein barn ni

37. Cafodd y Pwyllgor adborth cadarnhaol gan rhanddeiliaid ynghylch ymgynghoriad y Gweinidog a dywedodd rhanddeiliaid fod llawer o'u safbwyntiau wedi'u hymgorffori yn y Bil. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull o ymgysylltu a gymerir gan y Gweinidog ac yn credu y dylai'r dull cynhwysol hwn gael ei weld fel arfer gorau ar gyfer Biliau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

38. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y farn gan fwyafrif yr ymatebwyr ei bod yn debygol mai asiantau proffesiynol fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod hefyd yn bwysig cydnabod mai un o brif amcanion datganoli cyllidol yw cynyddu cyfrifoldeb ac atebolrwydd Llywodraeth Cymru. Felly, hyd yn oed os nad oes gwahaniaethau rhwng deddfwriaeth ddatganoledig a deddfwriaeth y DU yn ymwneud â threth dir y dreth stamp, treth tir a threth dirlenwi, mae'n hanfodol bod trethdalwyr Cymru yn deall mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y trethi hyn.

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 17 Medi 2015

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 31, 17 Medi 2015

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 17 Medi 2015

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil.

Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i gynnal ymgyrch ehangach i godi ymwybyddiaeth er mwyn annog ymwybyddiaeth gyhoeddus eang o Awdurdod Cyllid Cymru a threthi datganoledig cyn 2018.

3. Rhan 2 - Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)

Cefndir

39. Mae Rhan 2 y Bil yn sefydlu ACC, yn gwneud darpariaeth ar gyfer aelodaeth ei fwrdd, yn disgrifio ei brif swyddogaethau, yn diffinio sut y gellir defnyddio gwybodaeth trethdalwyr, ac yn caniatáu i ACC gychwyn achosion llys.

40. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Adran 2 yn sefydlu ACC fel corff corfforaethol gyda'i bersonoliaeth gyfreithiol ei hun. Bydd ACC yn gorff y Goron gyda statws adran anweinidogol, yn hytrach na statws Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn parhau gan nodi:

“Mae'r penderfyniad i sefydlu endid corfforaethol ar wahân i gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn adlewyrchu'r arferion gorau rhyngwladol o ran sicrhau y gall corff trethu gyflawni ei swyddogaethau heb ymyrryd yn wleidyddol ym mywydau trethdalwyr. Mae'r trefniadau atebolrwydd yn adlewyrchu'r angen i allu gwahaniaethu'n glir rhwng y corff corfforaethol a Gweinidogion Cymru.”³²

41. Mae adrannau 3-6 yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth ACC. Bydd y corff yn cynnwys aelodau anweithredol a gweithredol a bydd rhwng chwech a deuddeg o aelodau.

42. Mae Adrannau 5-6 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru benodi a dileu aelodau anweithredol gan gynnwys y cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd ac i wneud rheoliadau i ddiwygio nifer yr aelodau.

Tystiolaeth gan ymatebwyr

Awdurdod Cyllid Cymru

43. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru fel adran anweinidogol sydd ar wahân i Lywodraeth Cymru. Nododd CLA Cymru:

³² Memorandwm Esboniadol

“collection and management should be undertaken by a body that is operationally separate from Welsh Ministers.”³³

44. Roedd Sefydliad Bevan yn cytuno:

“it is important that the legal responsibility for tax collection management remains with the WRA, and that responsibility for tax policy remains with Welsh Government Ministers as it has the potential to support (or harm) other policy areas.”³⁴

45. Yn wreiddiol roedd Cyllid yr Alban yn gweithredu o fewn Llywodraeth yr Alban ond mae bellach yn adran anweinidogol. Dywedasant fod cael adran anweinidogol yn fodel eithaf safonol mewn awdurdodaethau ledled y byd a bod ganddynt berthynas waith dda gyda Llywodraeth yr Alban o hyd.³⁵

46. Cadarnhaodd CThEM ei fod hefyd yn gorff annibynnol er ei fod yn atebol i'r Trysorlys yn y pen draw.³⁶ Dywedodd:

“...we do have that degree of operational independence...The main objective for that is so that Ministers can't interfere with the day-to-day affairs that we have with taxpayers: so, deciding who we investigate...”³⁷

47. Dywedodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr:

“it should be very clear that the Welsh Government are setting policy and the WRA are applying the system and the management...Obviously, if the WRA have an independent board then they should be very clear on where those lines are.”³⁸

Aelodaeth o ACC

48. At ei gilydd roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn fodlon y byddai aelodaeth o ACC yn cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol. Dywedodd CLILC:

³³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 03

³⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 04

³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 1 Hydref 2015

³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 155, 1 Hydref 2015

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 226, 1 Hydref 2015

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 240, 7 Hydref 2015

“A non-executive Board with a chief executive responsible would seem appropriate, this being an understood and effective model for public sector bodies across the UK and consistent with the Nolan principles (the Code of Practice for Ministerial Appointments to Public Bodies) and international best practice.”³⁹

49. Fodd bynnag, cododd CLILC bryderon nad yw adran 6, sy'n ymdrin â sut y gall Gweinidogion Cymru gael gwared ar berson o ACC, yn ymdrin â'r broses ar gyfer cael gwared ar y cadeirydd anweithredol, ond bod adran 6(2) yn cyfeirio'n benodol at gael gwared ar y dirprwy gadeirydd.⁴⁰

50. Mynegodd Archwilydd Cyffredinol Cymru bryder fod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ACC enwebu un neu ddau o'i aelodau eraill o staff⁴¹ i fod yn aelodau o ACC. Awgrymodd fod hyn ychydig bach yn gylchol ac yn arwain at y “bwrdd” yn dewis ei aelodau ei hun. Roedd yn teimlo y byddai'n fwy priodol i'r cyflogeion gael eu henwebu gan y Prif Weithredwr i'w cymeradwyo gan y bwrdd.⁴²

51. Argymhellodd sawl ymatebydd gan gynnwys CLA Cymru, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr a Deloitte y dylai Aelodau anweithredol feddu ar wybodaeth neu brofiad o'r gyfraith a/neu weinyddu treth fel cyfreithwyr, cyfrifwyr neu gynghorwyr treth siartredig proffesiynol cymwys â phrofiad o gynghori trethdalwyr oherwydd byddant yn gallu darparu mewnwelediad gwerthfawr i ACC.⁴³

Tystiolaeth gan y Gweinidog

52. Mewn perthynas â sefydlu ACC yn adran anweinidogol, nododd y Gweinidog:

“The Bill fully protects the confidentiality of taxpayer information and specific taxpayer situations from any involvement from Welsh Ministers, and ensures the operational independence of the WRA.”⁴⁴

³⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 15

⁴⁰ *ibid*

⁴¹ Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

⁴² Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 02

⁴³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 03

⁴⁴ FIN(4)-21-15 PTN1: Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

53. Dywedodd fod mesur diogelu sylweddol yn erbyn ymyriad amhriodol ym materion trethdalwyr yn adrannau 16 ac 19 o'r Bil sy'n ei gwneud yn drosedd i unrhyw un sy'n gweithio yn ACC (neu sefydliadau sy'n gweithredu o dan bwerau wedi'u dirprwyo) i ddatgelu gwybodaeth a ddiogelir am drethdalwyr, yn hytrach nag mewn amgylchiadau wedi'u diffinio'n gaeth.⁴⁵

54. Cadarnhaodd y Gweinidog fod gwaith paratoi ar sefydlu ACC yn mynd rhagddo a bod disgwyl penodi Cyfarwyddwr Gweithredu ACC (Prif Swyddog Gweithredu) yn ystod haf 2016 a bod Prif Weithredwr yn debygol o gael ei benodi yn nhymor yr hydref 2017. Mae'n amcangyfrif y byddai gan ACC rhwng 25 a 32 aelod o staff.⁴⁶

55. Cwestiynodd y Pwyllgor y Gweinidog ynghylch pa reolaethau fyddai yn eu lle i sicrhau bod penderfyniadau allweddol a wneir mewn perthynas â phrosesau ACC yn parhau'n wrthrychol yn ystod y cyfnod gweithredu pan fydd gwaith yn cael ei wneud gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.⁴⁷ Cadarnhaodd y Gweinidog:

“this is about making sure that all the preparations are under way and that we're in a state of readiness before the WRA is established. Then, of course, the WRA will approve—. They'll be responsible for approving and receiving the preparatory work that's being undertaken on the systems, and taking ownership of them.”⁴⁸

56. Mewn perthynas â'r uchod, dywedodd y Gweinidog fod y mater hwn hefyd yn ymwneud â phan fydd bwrdd ACC yn cael ei benodi. Dywedodd fod gwersi wedi'u dysgu o'r Alban lle y penodwyd Bwrdd Cyllid yr Alban dri mis cyn “mynd yn fyw” a'i bwriad hi oedd penodi Bwrdd ACC chwe mis ymlaen llaw.⁴⁹ Aeth ei swyddog ymlaen i ddweud:

“It will then have time as well to consider that work that's already been done, and refine it, if necessary, before it's then brought in place on 1 April.”⁵⁰

⁴⁵ FIN(4)-21-15 PTN1: Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

⁴⁶ FIN(4)-26-15 P3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, 4 Tachwedd 2015

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 21 Hydref 2015

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 12, 21 Hydref 2015

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 14, 21 Hydref 2015

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 21 Hydref 2015

57. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai aelodau anweithredol y Bwrdd yn cael eu penodi drwy benodiadau cyhoeddus yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus.⁵¹

58. Dywedodd y byddai telerau ac amodau'r aelodau anweithredol yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru ac mai cyfrifoldeb Llywodraeth nesaf Cymru fyddai gwneud penodiadau o'r fath. Parhaodd:

"I would not anticipate that the terms and conditions of appointments would depart significantly from the existing terms and conditions model used for non-executive appointments to the Welsh Government Board. These are generally for a fixed period of two years with the possibility of extension. The Seven Principles of Public Life would apply."⁵²

Ein barn ni

59. Mae Adran 2(3) yn nodi bod swyddogaethau ACC yn cael eu cynnal ar ran y Goron ac mae Adran 8(6) yn ei gwneud yn glir y bydd staff ACC yn weision sifil. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn golygu bod ACC yn endid y llywodraeth i bob pwrpas, sydd ar wahân yn gyfreithiol i Lywodraeth Cymru.

60. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Bil gael ei gryfhau i atgyfnerthu'r elfen yma o wahanu/annibyniaeth. Mae'r ddeddfwriaeth gyfatebol yn yr Alban; *Revenue Scotland and Tax Powers Act 2014*⁵³ (RSTPA 2014), yn cynnwys darpariaeth benodol o dan adran 7 "*Independence of Revenue Scotland*". Credwn y dylai darpariaeth debyg gael ei chynnwys yn y Bil hwn. [Caiff y mater hwn ei drafod ymhellach ym mhennod 7]

61. Ar y cyfan, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar gyfansoddiad gweithredol ac anweithredol Bwrdd ACC. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y model hwn o fyrddau wedi'u cyfuno yn fodel effeithiol yn y sector preifat ac mae wedi'i weithredu'n llwyddiannus ar gyfer rhai cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru.

62. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod diffyg manylion yn y Bil ynglŷn â'r dull a ddefnyddir ar gyfer enwebu aelodau o staff i fwrdd

⁵¹ FIN(4)-21-15 PTN1: Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

⁵² *ibid*

⁵³ Revenue Scotland and Tax Powers Act 2014:
www.legislation.gov.uk/asp/2014/16/contents

ACC. Rydym yn cymeradwyo'r dull a argymhellir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru; y byddai'n fwy priodol i'r "un neu ddau aelod arall o staff" gael eu henwebu gan y Prif Weithredwr i'w cymeradwyo gan y bwrdd yn yr un ffordd ag y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gallu argymhell person i'r aelodau anweithredol i benodi fel y nodir yn *Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013*.⁵⁴

63. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn cydnabod manteision penodi aelodau o staff i'r bwrdd drwy bleidlais ac yn argymhell y dull hwn pan fydd lleoedd gwag yn codi yn y dyfodol, fel y nodir yn *Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013*.⁵⁵

64. Mae'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd y Gweinidog y caiff penodiadau anweithredol i'r Bwrdd eu gwneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bod sawl bwrdd ledled Cymru yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth amrywiol gyda gwahanol gyfnodau ar gyfer penodi ac ailbenodi. Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cael mwy o gysondeb o ran hyd penodiadau ac a ddylid caniatáu ailbenodiadau.

65. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Rhan 2, sy'n ymwneud â chyfansoddiad ACC, yn gwneud darpariaethau amrywiol mewn perthynas â'r dirprwy gadeirydd, ac yn aml iawn nid yw'r darpariaethau hyn yn cyfeirio at y cadeirydd. Er cysondeb ac eglurder mae'r Pwyllgor yn credu y dylai darpariaethau mewn perthynas â'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd fod yn debyg, oni bai bod rheswm dilys dros yr amrywiadau. Os bydd unrhyw resymau dilys, hoffai'r Pwyllgor i'r Gweinidog egluro'r rhesymau dros yr amrywiad hwn.

66. Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad y Gweinidog i benodi Prif Weithredwr i ymgymryd â gwaith paratoi cyn sefydlu ACC ac y bydd y bwrdd yn cael ei benodi chwe mis cyn i'r trethi fynd yn fyw yn 2018. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y dull hwn ac mae'n gwerthfawrogi pwysigrwydd sicrhau bod ACC yn cael ei ffurfio'n effeithiol cyn mis Ebrill 2018.

⁵⁴ www.legislation.gov.uk/anaw/2013/3/pdfs/anaw_20130003_we.pdf

⁵⁵ *ibid*

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell cryfhau'r Bil er mwyn sicrhau bod Awdurdod Cyllid Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a dylid darparu'n benodol ar gyfer hyn ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 4(1)(d) o'r Bil gael ei diwygio i sicrhau bod yr aelodau o staff a benodir i'r bwrdd yn cael eu gwneud drwy broses o enwebu gan y Prif Weithredwr i ddechrau ac yna drwy gynnal pleidlais staff pan fydd lleoedd gwag yn codi yn y dyfodol.

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Bil gynnwys mwy o fanylion am y cyfnod penodi ar gyfer aelodau anweithredol a byddai'n argymell y model a bennwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 fel enghraifft dda, ond dylai penodiadau anweithredol fod am gyfnod o ddim mwy na phedair blynedd ac ni ellir penodi person fwy na dwywaith.

Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r darpariaethau yn Rhan 2 mewn perthynas â'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd fod yn gyson oni bai bod rheswm dilys dros gael darpariaethau gwahanol.

Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid diwygio adran 8(4) sy'n gwneud darpariaeth i Brif Weithredwyr "gael eu penodi gan ACC" (yn dilyn y penodiad cyntaf gan Weinidogion Cymru) er mwyn sicrhau mai'r aelodau anweithredol sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar benodi (yn hytrach na chyflogeion sy'n aelodau o'r Bwrdd).

4. Pwyllgorau ac is-bwyllgorau; a Gweithdrefn

Cefndir

67. Mae adran 7 yn gwneud darpariaethau i ACC sefydlu pwyllgorau (a gaiff sefydlu is-bwyllgorau) at unrhyw ddiben sy'n ymwneud â'i swyddogaethau. Caiff ACC benderfynu ar gyfansoddiad pwyllgorau a hefyd benodi i bwyllgorau bobl nad ydynt yn aelodau o ACC a thalu iddynt am y gwasanaethau a roddant, (dylai taliadau o'r fath gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru).

68. Mae adran 9 yn caniatáu i ACC reoleiddio ei weithdrefnau ei hun a gweithdrefnau ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau, gan gynnwys pennu cworwm.

Tystiolaeth gan ymatebwyr

69. Mae llawer o ymatebwyr gan gynnwys y Sefydliad Siartredig Trethiant a Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yn croesawu gallu ACC i sefydlu pwyllgorau i'w alluogi i ategu sgiliau a gwybodaeth y Bwrdd. Roedd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yn teimlo y byddai'r darpariaethau yn:

“ensure a greater coverage and understanding of the effect, or potential effect, of their work and gather more directly the views of those involved in business and the economy as a whole.”⁵⁶

70. Roedd y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel yn cytuno a dywedodd y byddai'n galluogi ACC i gael cyngor a chymorth gan arbenigwyr ym meysydd penodol treth, ac roeddent yn teimlo y byddai hyn yn hanfodol am nad yw'n hysbys sut y bydd trethi Cymru yn datblygu yn y dyfodol.⁵⁷

71. Cadarnhaodd Cyllid yr Alban eu bod wedi sefydlu pwyllgor archwilio a risg yr oedd fwy neu lai yn ofynnol iddo ei sefydlu a phwyllgor staffio a chydraddoldeb, a chafodd hyn ei drafod a'i gytuno gan y Bwrdd.⁵⁸

⁵⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 09

⁵⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 01

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 1 Hydref 2015

72. Mewn perthynas ag adran 9 ar weithdrefnau ACC, roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn pryderu y byddai ACC yn gallu rheoleiddio ei weithdrefnau ei hun a allai ei ganiatáu i weithredu heb reolaeth yr aelodau anweithredol. Argymhellodd y dylai adran 9 gynnwys darpariaeth bod yn rhaid i'r cworwm a bennir gan ACC ei gwneud yn ofynnol bod mwyafrif o aelodau anweithredol yn bresennol.⁵⁹

73. Roedd CLILC yn cytuno y dylid cael mwy o aelodau anweithredol nag aelodau gweithredol.⁶⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

74. O ran cworwm y Bwrdd, esboniodd swyddog y Gweinidog:

“If you count up the number of non-execs and execs, obviously, the idea of the board will always be top-heavy as far as non-execs are concerned. That’s an important principle, which the Minister established early on.”⁶¹

75. Parhaodd swyddog y Gweinidog gan ddweud:

“it doesn’t go into that level of detail when it comes to the committees or sub-committees because that’s within the gift of the WRA as to how they set their procedures.”⁶²

76. Dywedodd fod hyn er mwyn darparu’r hyblygrwydd mwyaf posibl oherwydd bydd yn dibynnu ar ba bwyllgorau neu is-bwyllgorau y bydd ACC yn dymuno eu sefydlu.⁶³

77. Gofynnodd y Pwyllgor i’r Gweinidog pam mae gwahaniaeth rhwng y strwythur aelodaeth ar gyfer ACC a’r strwythur aelodaeth o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Dywedodd y Gweinidog:

“The WRA is the first ever Welsh non-ministerial department. It is a different body in terms of the provisions that came through the Public Audit (Wales) Act. And it’s our first ever one; there are no precedents for the model. So, we have to recognise

⁵⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 02

⁶⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 15

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 214, 21 Hydref 2015

⁶² *ibid*

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 218, 21 Hydref 2015

different governance provisions, and it's important that we look to what is needed for the WRA."⁶⁴

Ein barn ni

78. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi gallu ACC i sefydlu pwyllgorau at unrhyw ddiben sy'n ymwneud â'i swyddogaethau, oherwydd bydd hyn yn golygu bod modd i sgiliau a gwybodaeth y Bwrdd gael eu hategu gan eraill. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y Bil yn galluogi i ACC gael rheolaeth lwyr dros ei weithdrefnau ei hun a allai ganiatáu iddo weithredu heb gyfraniad yr aelodau anweithredol.

79. Er mwyn sicrhau tryloywder ACC, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai penderfyniadau a wneir gan bwyllgorau/is-bwyllgorau fod ar gael yn gyhoeddus, oni bai bod rheswm dilys dros beidio â gwneud hynny. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai ACC baratoi cynllun cyhoeddi a ddylai gynnwys yr amgylchiadau pan na fyddai penderfyniadau'n cael eu cyhoeddi i sicrhau bod dull gweithredu cyson ar draws pwyllgorau/is-bwyllgorau.

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio'r Bil i sicrhau bod cworwm y Bwrdd yn rhagnodi mwyafrif o aelodau anweithredol.

Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai o leiaf un aelod anweithredol fod yn aelod o bob pwyllgor/is-bwyllgor, oni bai ei fod yn bwyllgor/is-bwyllgor nad yw'n gwneud penderfyniadau.

Argymhelliad 10: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Awdurdod Cyllid Cymru baratoi cynllun cyhoeddi ac y dylai'r holl benderfyniadau a wneir gan bwyllgorau/is-bwyllgorau Awdurdod Cyllid Cymru fod ar gael yn gyhoeddus. Os oes rheswm dilys dros beidio â chyhoeddi penderfyniad, dylai'r rhesymau dros hyn fod ar gael yn gyhoeddus yn unol â'r cynllun cyhoeddi.

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 199, 21 Hydref 2015

5. Prif swyddogaethau ACC

Cefndir

80. Mae adran 11 yn nodi swyddogaethau ACC, gan gynnwys ei swyddogaeth gyffredinol o gasglu a rheoli trethi datganoledig a'i swyddogaethau penodol mewn perthynas â threthi o'r fath gan gynnwys darparu gwybodaeth a chymorth i Weinidogion Cymru a threthdalwyr ac eraill; datrys cwynion ac anghydfodau; a hyrwyddo cydymffurfiaeth â chyfraith treth ac atal efadu ac osgoi talu treth. Caiff ACC gymryd camau eraill y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau.

81. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ei bod yn debyg mai dull digidol yn bennaf fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer casglu a rheoli trethi ond nodir y gallai hyn gael effaith [andwyol] ar ardaloedd gwledig sydd â chysylltiad rhyngrwyd gwael.⁶⁵

82. Mae Adran 12 yn rhoi'r awdurdod i ACC awdurdodi cynnal unrhyw un o'i swyddogaethau (i unrhyw raddau) i aelod o ACC, un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau ACC neu'r prif weithredwr neu unrhyw aelod o staff arall ACC.

Tystiolaeth gan ymatebwyr

83. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon na fyddai'r Bil yn arwain at feichiau cydymffurfio ychwanegol i drethdalwyr.

84. Wrth drafod y sefyllfa yn yr Alban, cadarnhaodd Cyllid yr Alban nad oedd yn ymwybodol o unrhyw faich ychwanegol sylweddol. Dywedodd ei fod wedi cael adborth cadarnhaol gan gyfreithwyr mewn perthynas â Threth Drafodiadau Tir ac Adeiladau.⁶⁶ Aeth ymlaen i ddweud:

“There's nothing to indicate that the compliance burden on landfill operators is markedly worse. They've had to learn to use a new online system, which HMRC didn't have. They are not

⁶⁵ Memorandwm Esboniadol

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 1 Hydref 2015

telling me that they're finding it difficult. So, I think that's all positive."⁶⁷

85. O ran unrhyw gostau ychwanegol i drethdalwyr ar gyfer cydymffurfio â'r weithdrefn drethi newydd ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai unrhyw faich ar y trethdalwyr mor fach â phosibl.⁶⁸ Aeth ymlaen i ddweud:

"The only thing I can think of, really, would be the fact that, at the moment, a landfill operator who operates in England and Wales only has to produce one tax return. When the tax is devolved to Wales, they would have to produce two. So, a small burden on them. But I'm not aware of any proposals that would significantly increase the cost on taxpayers."⁶⁹

86. Roedd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yn cytuno gan ddatgan bod angen cymryd y cyfle i symleiddio pethau ac felly leddfu'r problemau cydymffurfio sydd yn y system.⁷⁰

Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd

87. Mae'r Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd yn rhan o ddull Llywodraeth y DU o reoli'r risg o osgoi talu trethi. Mae gwefan C THEM yn nodi bod y Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd:

"has been introduced to strengthen HM Revenue and Customs' (HMRC's) anti-avoidance strategy and help HMRC tackle abusive avoidance. The GAAR legislation defines what are, for its purposes, tax arrangements that are abusive."⁷¹

88. Cafodd y Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd ei hystyried yn ystod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cynlluniau osgoi talu treth ond ni chafodd ei chynnwys yn y Bil.

89. Cafwyd consensws cyffredinol gan ymatebwyr bod y Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd yn ddull defnyddiol ond nid o reidwydd yn briodol ar gyfer y Bil hwn ac y byddai'n well ei chynnwys mewn deddfwriaeth dreth benodol.

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 1 Hydref 2015

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 403, 1 Hydref 2015

⁶⁹ *ibid*

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 186, 7 Hydref 2015

⁷¹ www.gov.uk/government/publications/tax-avoidance-general-anti-abuse-rules

90. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr ei bod yn well i ddull atal camddefnydd fod yn gysylltiedig â threthi unigol.⁷² Dywedwyd mai manteision y dull hwn yw:

“you would be defining it in relation to an individual tax; you wouldn’t just to be defining it in relation to general operation. It could apply more broadly, because what’s going in place in the Bill is a tax system that will then incorporate other taxes that are devolved to Wales, it’s not just looking at the two that we have currently.”⁷³

91. Dywedodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr fod y Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd, fel y’i defnyddir ar hyn o bryd, wedi’i hanelu at dreth incwm a threth gorfforaeth trethdalwyr unigol.⁷⁴ Dywedodd oherwydd bod y rhain yn:

“areas that are not yet in the devolution arena...I’m not sure that there would be any benefit at this stage for the Welsh Government to be looking at that”⁷⁵

92. Fodd bynnag, roedd CThEM o’r farn ei bod yn ddefnyddiol cael Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd ar draws y sbectrwm o drethi oherwydd mae dechrau trafodiadau difriol yn digalonni pobl.⁷⁶ Aeth ymlaen i ddweud:

“... quite apart from the fact that you’ve got powers to tackle abuse, it is a discouraging thing and, obviously, we don’t want taxpayers to enter into abusive arrangements. But it’s really for Wales to decide what they want to do in there.”⁷⁷

Gwybodaeth am Drethi a Nodiadau Effaith

93. Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi gwybodaeth am drethi a nodiadau effaith (TIINs) ar gyfer newidiadau polisi treth pan fydd y polisi ar ei ffurf derfynol neu’n agos at fod ar ei ffurf derfynol. Mae gwefan CThEM yn nodi:

⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff 363, 7 Hydref 2015

⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 365, 7 Hydref 2015

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 199, 7 Hydref 2015

⁷⁵ *ibid*

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 120, 1 Hydref 2015

⁷⁷ *ibid*

“TIINs provide a clear explanation of the policy objective together with details of the tax impact on the Exchequer, the economy, individuals, businesses, civil society organisations, as well as any equality or other specific area of impact.”⁷⁸

94. Mewn tystiolaeth ymhelaethodd CThEM ar sut y defnyddiwyd TIINs:

“The tax information and impact note effectively serves two purposes: we publish a whole series of them at the autumn statement...But, basically, for every measure that goes into the finance Bill, and for other secondary legislation measures, the idea of the tax information and impact note is really to give the sort of headline messages about what’s in there—so, who’s going to be affected, when the measure starts, what legislation’s been changed, provide contact details for officials—so, really, just giving the key information so that someone can just pick that up and look at it, and immediately find out whether or not they’re going to be affected and what’s being changed, and then also provide details of the potential impacts on groups.”⁷⁹

95. Dywedodd CThEM fod TIINs yn canolbwyntio ar yr ochr ddeddfwriaethol, gan ddweud o ystyried y byddai’r trethi disgwylidig yn drethi a fyddai wedi’u datganoli’n llwyr, ni fyddent yn paratoi TIINs ar gyfer y mathau hyn o fesurau.⁸⁰ Fodd bynnag, dywedodd y byddai’n:

“very happy to work with the Welsh Government in terms of how we go about producing these and the kind of information that we use to support them, particularly in areas such as calculating admin burdens on business. I think we’ve generally had positive feedback from customers in terms of how well they’re received, both from giving that basic information but also then putting some more background around impacts, and so on. It’s certainly something we’d be very happy to work on with the Welsh Government and the Welsh revenue authority to help them do something similar.”⁸¹

⁷⁸ www.gov.uk/government/collections/tax-information-and-impact-notes-tiins

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 222, 1 Hydref 2015

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 223, 1 Hydref 2015

⁸¹ *ibid*

96. Awgrymodd tystion eraill, gan gynnwys Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, y dylai ACC baratoi asesiadau effaith ar drethi. Dywedodd:

“Every time policy is set, there should be an objective to that tax policy, and the WRA should be able to measure the performance of that policy and report back to the Welsh Government so that you can measure whether the policy has succeeded.”⁸²

Digidol yn bennaf

97. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod bod llawer o sefydliadau yn newid i fodel digidol yn bennaf ac y bydd y trethi datganoledig yn effeithio ar fusnesau a gweithwyr proffesiynol yn bennaf sy'n fwy tebygol o fod wedi'u paratoi i ymdrin â gwasanaethau digidol.

98. Cadarnhaodd CThEM ei fod yn symud tuag at gyfrifon trethi digidol ar gyfer pob trethdalwr, gyda'r nod y bydd pob trethdalwr unigol yn gallu cael gafael ar ei gyfrif digidol ei hun erbyn diwedd y Senedd nesaf yn 2020.⁸³ Dywedodd:

“... there are definite advantages with the digital approach in terms of giving customers the facility to report much more regularly, perhaps monthly or quarterly, and pay their taxes as they arise rather than, necessarily, a long time after the fact. As well, I think there's a particular challenge for HMRC to make better use of the data that we have.”⁸⁴

99. Dywedodd CThEM fod 97% o ffurflenni ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp yn cael eu cyflwyno ar-lein ac mae 68% o daliadau yn cael eu talu ar-lein. Dywedodd:

“... we need to work with the Welsh Government as part of taking this forward to work out what their approach is going to be to this, but, also, obviously, we are moving very fast in terms of digital change at the moment, and it's trying to

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 190, 7 Hydref 2015

⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 271, 1 Hydref 2015

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 272, 1 Hydref 2015

anticipate what the SDLT picture will look like in 2018 and making sure that, actually, things align as far as possible.”⁸⁵

100. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod ar hyn o bryd yn cynnal nifer o weithgareddau casglu gwastraff drwy ddulliau digidol. Gan ei fod yn ymwybodol o fwriad y Gweinidog i sefydlu gweithgarwch ar-lein ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi dywedodd, gan ddibynnu ar ei rolau a'i gyfrifoldebau dirprwyedig yn y dyfodol, ei fod yn rhag-weld y byddai'n cynorthwyo gyda'r gwaith hwnnw.⁸⁶

101. Er bod y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel yn credu y byddai llawer o fanteision yn sgil defnyddio gwasanaethau digidol ac ar-lein, roeddent yn pryderu na ddylai fod yn ddull “un maint i bawb” a rhaid cael dewis arall.⁸⁷

102. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod y byddai'r trethi arfaethedig i'w datganoli yn effeithio ar fusnesau yn bennaf, felly efallai nad yw'r effaith yr un peth â phe bai ar unigolion.⁸⁸

103. Codwyd pryderon eraill am oblygiadau ariannol sefydlu system ddigidol yn bennaf sy'n cael eu trafod ymhellach ym mhennod 12.

Awdurdodiad mewnol i gyflawni swyddogaethau

104. Roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn pryderu y byddai gallu ACC i awdurdodi cyflogai i gyflawni ei swyddogaethau yn galluogi ACC i fabwysiadu dull “di-ymyrraeth” o ran ei swyddogaethau ac na fyddai hyn yn gyson â threfniadau llywodraethu da. Awgrymodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y dylai rhai swyddogaethau fel cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol, yr Adroddiad Blynnyddol, y Datganiad Cyfrifon a Threth gael eu cadw ar gyfer ACC ac na ddylid eu dirprwyo i'w staff.⁸⁹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

105. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi gwneud cryn dipyn o ymgynghori ar fater y Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd a bod mynd i'r afael ag osgoi talu treth yn brif flaenoriaeth. Dywedodd:

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 280, 1 Hydref 2015

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 350, 1 Hydref 2015

⁸⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 01

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 430, 1 Hydref 2015

⁸⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 02

“we’ve got to have robust anti-avoidance arrangements...I think whether there should be a single rule or one for each tax will be for the next Government to develop in tax-specific legislation. I do anticipate there’ll be an overarching measure. I think there has to be an overarching measure, but it’s got to be very clearly applied and relevantly applied to both the devolved taxes. So, the legislation for those devolved taxes will include specific proposals targeting areas where tax avoidance is identified in existing UK taxes.”⁹⁰

106. Mewn perthynas â’r dull digidol yn bennaf, dywedodd ei fod yn sicr yn rhan o strategaeth CThEM ar hyn o bryd o ran gwella gwasanaethau ac y byddai’n bwysig bod ACC yn dod yn ddigidol yn bennaf dros amser.⁹¹

107. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod achosion o allgáu digidol yng Nghymru a dywedodd:

“I think this is where the charter consultation might be very helpful in terms of access for taxpayers. We have to look very carefully at how we can enable people to access the information if they’re not digitally engaged.”⁹²

108. Dywedodd y gall llywodraeth leol fod yn ddefnyddiol⁹³ am fod ganddi brofiad o symud tuag at y dull digidol yn bennaf ar gyfer credyd cynhwysol ac y gellid dysgu gwersi o fentrau fel Cymunedau 2.0 a’r gwaith y maent wedi’i wneud o ran ceisio gwella cynhwysiant digidol.⁹⁴

109. Mewn perthynas ag adran 12 ar yr awdurdodiad mewnol i gyflawni swyddogaethau, dywedodd y Gweinidog ei bod yn fater i ACC o ran pa swyddogaethau y byddai’n eu dirprwyo ac y byddai ACC yn dal i gadw’r cyfrifoldeb cyffredinol.⁹⁵

110. Dywedodd ei swyddog fod y geiriau “(i unrhyw raddau)” ond yn fater o eglurder yn y drafftio, gan gadarnhau y tu hwnt i amheuaeth

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 138, 21 Hydref 2015

⁹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 124, 21 Hydref 2015

⁹² *ibid*

⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 127, 21 Hydref 2015

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 126 a 127, 21 Hydref 2015

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 17 Medi 2015

nad oes unrhyw gyfyngiadau ar unrhyw rai o'r pethau na all ACC eu dirprwyo'n fewnol.⁹⁶ Aeth yn ei flaen i ddweud:

"I don't think anyone would anticipate that such key documents, perhaps like a corporate plan or annual report, wouldn't still be signed off at the appropriate level."⁹⁷

111. Roedd y Gweinidog o'r farn bod asesiadau ar effaith polisi treth yn arfer da a dywedodd ei bod yn hanfodol bod effaith bosibl polisi treth yn cael ei hystyried yn ofalus iawn.⁹⁸ Parhaodd:

"where there's any new tax legislation, we would obviously have to have specific impact assessments, and that would be looking at the impact on third sector businesses, small businesses, equality, protecting groups and human rights—you know, all the impact assessments that we undertake. That would be the case for both the new laws in terms of land transaction tax and landfill disposals tax, and, in fact, any other taxes that could be devolved to Wales. But it is a WRA function, as a result of this Bill, to provide information, assistance and advice to the Welsh Ministers, and that's going to be set out in a memorandum of understanding."⁹⁹

Ein barn ni

112. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Gweinidog ac a gafwyd gan yr ymatebwyr y dylai'r Rheol Gyffredinol ar Atal Camddefnydd gael ei chynnwys mewn deddfwriaeth dreth benodol yn hytrach nag yn y Bil trosfwaol hwn.

113. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod llawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn symud tuag at ddull digidol yn bennaf a chytunwn y dylai ACC anelu at fod yn ddigidol oherwydd gall hyn fod yn fuddiol a sicrhau arbedion cost i drethdalwyr ac ACC. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn awyddus i beidio ag eithrio trethdalwyr nad oes ganddynt y sgiliau na'r cysylltedd i ymgysylltu ag ACC yn ddigidol ac y dylid rhoi cymorth gyda chynhwysiant i bob sector.

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 79, 17 Medi 2015

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 17 Medi 2015

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 120, 21 Hydref 2015

⁹⁹ *ibid*

114. Nododd Cynghorydd Arbenigol y Pwyllgor y bu nifer o achosion lle bu'r asesiadau a wnaed yn TIINs ar gyfer trethi ar draws y DU yn wahanol iawn i'r canlyniad. Byddai hyn yn amlwg yn fater o bryder e.e. os byddai cost ymwared yn llawer mwy na'r disgwyl oherwydd gallai awgrymu bod y gostyngiad yn cael ei gamddefnyddio; gall hefyd ddynodi bod ymwared yn aneffeithiol os oedd y canlyniad yn llawer llai. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai cynnwys TIINs (neu ddogfennau cyfatebol) gael ei adolygu gan ACC bob tair blynedd ac y dylai'r adolygiad fod yn destun craffu gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad.

Argymhelliad 11: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Nodiadau Effaith a Gwybodaeth Treth (neu ddogfennau cyfatebol) gael eu cyflwyno ar gyfer pob amrywiad sylweddol i drethi datganoledig. Lle y bo'n briodol dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y nodiadau hyn yn cael eu paratoi ochr yn ochr â'r cyhoeddiadau cyllideb. Dylai'r nodiadau hyn gael eu hadolygu gan Awdurdod Cyllid Cymru bob tair blynedd o leiaf a bod yn destun proses graffu gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad cyn cytuno ar gyllideb Awdurdod Cyllid Cymru.

Argymhelliad 12: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai adran 12 gael ei diwygio i egluro bod rhai swyddogaethau pwysig (fel cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol, yr Adroddiad Blynyddol, y Cyfrifon blynyddol a'r Datganiad Treth blynyddol) yn cael eu neilltuo fel cyfrifoldeb Awdurdod Cyllid Cymru ac na ddylid eu dirprwyo i'r staff.

6. Dirprwyo swyddogaethau

Cefndir

115. Mae adran 13 yn gwneud darpariaeth i ACC ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau i un neu ragor o'r sefydliadau a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Gwneir darpariaeth i ACC dalu sefydliad y mae wedi dirprwyo swyddogaeth iddo a rhoi cyfarwyddiadau ynghylch sut y dylid arfer swyddogaethau a ddirprwywyd. Rhaid i ACC gyhoeddi gwybodaeth am unrhyw ddirprwyaethau a chyfarwyddiadau o'r fath a roddir.

Tystiolaeth gan ymatebwyr

116. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ar y darpariaethau dirprwyo yn y Bil. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod cryn hyblygrwydd yn y Bil:

“... there is an ability there for them [WRA] to delegate with regard to extent, to who, and also to how long, but also to have the power to revoke that delegation when needed.”¹⁰⁰

117. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn teimlo bod y Bil yn caniatáu digon o ryddid i ddirprwyo swyddogaethau ac y byddai'r atebolrwydd a'r cyfrifoldeb yn aros gyda'r ACC.¹⁰¹

118. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn pwysleisio'r angen am gytundebau lefel gwasanaeth ffurfiol rhwng ACC a chyrff dirprwyedig i sicrhau atebolrwydd. Roedd CThEM yn argymhell pwysigrwydd llinellau atebolrwydd clir.¹⁰²

119. Cytunodd y Sefydliad Siartredig Trethiant y byddai'r adrodd yn ôl gan gyrff dirprwyedig a'r fframwaith ar gyfer yr adroddiadau hynny yn hanfodol.¹⁰³

Darparwyr dirprwyedig

120. Dywedodd Cyllid yr Alban fod Cofrestrau'r Alban yn ei gynorthwyo â phrosesu ffurflenni papur a sieciau, ac mae Asiantaeth

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 378, 1 Hydref 2015

¹⁰¹ *ibid*

¹⁰² Cofnod y Trafodion, paragraff 153, 1 Hydref 2015

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraff 455, 1 Hydref 2015

Diogelu'r Amgylchedd yr Alban yn gweithio gydag ef ar yr ochr gydymffurfio. Fodd bynnag, cadarnhaodd:

“...partner organisations don't do any of the collection themselves; all of the money flows into Revenue Scotland.”¹⁰⁴

121. Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi mai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yw'r darparwr sydd orau ganddi i weithio gydag ACC i gasglu a rheoli Treth Trafodiadau Tir. Cadarnhaodd CThEM mai ei fwriad oedd addasu ei system bresennol treth dir y dreth stamp i weithredu'r dreth trafodiadau tir a defnyddio ei staff profiadol sy'n gweithio ar dreth dir y dreth stamp yn ei swyddfa yn Birmingham i ymgymryd â gweithgaredd gweinyddol, fel prosesu ffurflenni, gwaith dilynol ar wallau ac ati. Fodd bynnag, ar gyfer cydymffurfio â gwahanol ostyngiadau ar gyfer Treth Trafodiadau Tir:

“...we would probably need dedicated staff to actually deal with that compliance activity.... Certainly, with avoidance, we would see that that would actually be dealt with by Welsh Government rather than HMRC.”¹⁰⁵

122. Mewn tystiolaeth bellach dywedodd CThEM ei fod yn cynnig:

“... to set up a specialist team to carry out compliance activities, which could be based in Wales that would also liaise with the WRA and assist in building up their knowledge and expertise on devolved taxes.”¹⁰⁶

123. Dywedodd CThEM er nad oes ganddi swyddogaeth ddirprwyo mewn mannau eraill, mae ganddi brofiad o gasglu benthyciadau myfyrwyr a phlismaona'r system isafswm cyflog cenedlaethol ar ran yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.¹⁰⁷ Felly, roedd CThEM yn teimlo bod ganddi brofiad o weithio gydag adrannau eraill:

“on taking forward these relationships and...having standards that we need to meet in delivering those things.”¹⁰⁸

124. Mewn perthynas â chasglu Treth Gwarediadau Tirlenwi, y ffordd y mlaen fyddai sydd gan y Gweinidog fyddai i Awdurdod Cyllid Cymru

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 1 Hydref 2015

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 175, 1 Hydref 2015

¹⁰⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 13 gwybodaeth ychwanegol

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 161, 1 Hydref 2015

¹⁰⁸ ibid

ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau casglu a rheoli ei hun a dirprwyo o ran cydymffurfio a gorfodi i Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn pryderu gan ddweud:

“[we] have no expertise in terms of enforcement and compliance with regard to tax legislation and financial information.”¹⁰⁹

125. Roedd Cyngor Dinas Caerdydd (Cyngor Caerdydd) yn teimlo bod angen gwahaniaethu rhwng gweithredu, casglu a rheoleiddio ac nid oeddent o'r farn bod casglu trethi yn rhan o set sgiliau Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd yn teimlo bod hynny'n fwy addas o fewn llywodraeth leol.¹¹⁰

126. Gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf y pwynt mai awdurdodau lleol yw'r unig bobl sydd â phrofiad o gasglu trethi yng Nghymru ar hyn o bryd. Nododd ei brofiad o gasglu'r dreth gyngor, trethi busnes a dyledion eraill ac awgrymwyd y gallai adeiladu ar y profiad hwn i leihau lefel y fiwrocratiaeth a'r baich ar drethdalwyr Cymru.¹¹¹

127. Dywedodd Cyngor Caerdydd yn ystod ymgynghoriad cychwynnol y Gweinidog, nad oedd ganddo ddigon o amser i lunio achos busnes i awdurdodau lleol gasglu trethi ac ar ôl ystyried hyn roedd o'r farn ei fod wedi colli cyfle euraidd.¹¹² Dywedodd pe bai wedi cael mwy o amser i baratoi achos busnes, y byddai casglu trethi wedi bod yn rhywbeth y byddai wedi gallu ei wneud yn dda iawn.¹¹³

128. Aeth Cyngor Caerdydd ymlaen i ddweud:

“There's a handful of local authorities that own and operate sites or own LAWDCs, which are local authority waste disposal companies. Cardiff and Newport, which are very local to here, and also RCT have a LAWDC. So, in that situation local authorities understand both from the point of view of paying and being tax collector and distributor of landfill tax credits, but, then, obviously, all local authorities are very familiar with

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 327, 1 Hydref 2015

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 48, 15 Hydref 2015

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 15 Hydref 2015

¹¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 110, 15 Hydref 2015

¹¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 30, 15 Hydref 2015

paying landfill tax on municipal waste streams that they're responsible for and accountable for."¹¹⁴

129. Er i Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ddweud mai defnyddio CThEM yw'r penderfyniad cywir roedd yn pryderu am y risgiau o ran sicrhau gwasanaeth wedi'i deilwra i Gymru.¹¹⁵ Dywedodd:

"there is a real danger that there won't be a Welsh bespoke service, that the service will be added on and perhaps not given the priority that we'd want. So, there must be some form of agreement with HMRC that recognises that we need a bespoke service."¹¹⁶

130. Cytunodd Cymdeithas y Cyfreithwyr gan ddweud y gallai fod problemau o ran CThEM yn darparu gwasanaeth dwyieithog oherwydd bod ymholiadau treth stamp yn gallu bod yn eithaf technegol ac yn benodol iawn. Aeth ymlaen i ddweud:

"I can see there being an issue in actually resourcing an office to deal with guidance and deal with queries that is going to be at an appropriate cost, because we have to be conscious, I think, of the number of transactions in Wales as compared with England, and, presumably, HMRC, generally, can absorb that cost more easily than a distinct Welsh tax can. I can see there being issues on both those heads, really, in terms of the technical issues and, obviously, responding in the Welsh language as well."¹¹⁷

131. Pwysleisiodd Cymdeithas y Cyfreithwyr:

"It's that agency agreement that is going to be key. If the Welsh revenue authority is relinquishing its own operation then it's down to the revenue authority to ensure that, in Wales, it's within the law and so will include provision through the medium of Welsh."¹¹⁸

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 15 Hydref 2015

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 233, 7 Hydref 2015

¹¹⁶ *ibid*

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 384, 7 Hydref 2015

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 388, 7 Hydref 2015

Tystiolaeth gan y Gweinidog

132. Dywedodd y Gweinidog er y byddai Llywodraeth Cymru yn paratoi'r ffordd, cyfrifoldeb ACC fyddai'r penderfyniad terfynol ar ddirprwyo.¹¹⁹ Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog fod gan ACC y disgresiwn i amrywio neu ddirymu dirprwyaeth ar unrhyw adeg, ond dim i rywun a enwir yn y rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru y gall ddirprwyo.¹²⁰

133. Mewn perthynas â'r partneriaid a fyddai orau gan y Gweinidog, dywedodd fod trafodaethau gyda CThEM a Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â dirprwyo ar y camau cynnar o hyd a phwysleisiodd mai cyfrifoldeb Llywodraeth nesaf Cymru fyddai rhagnodi mewn rheoliadau i bwy y bydd ACC yn dirprwyo swyddogaethau yn ffurfiol.¹²¹

134. Mewn perthynas â CThEM dywedodd y Gweinidog fod ganddo gyfoeth o wybodaeth am dreth a phrofiad ohono. Parhaodd:

“HMRC collected almost £11bn in Stamp Duty Land Tax, (SDLT) in 2014-15, handling well over 1 million transactions. They have an end-to-end processing and management office in Birmingham, which includes all transactional elements of SDLT collection (based on their existing ICT system), as well as addressing more complex and challenging compliance and avoidance issues, and making wider links to other UK taxes. Over 96% of SDLT returns are received online with over 60% of payments being made online and this proportion is rising. The WRA would gain the benefit of these service improvements.”¹²²

135. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

“HMRC have offered a small, separate, ring-fenced Welsh Taxes Team, which could be based in Wales and possibly co-located with the WRA. This team would ensure that there is close liaison in Wales between HMRC and WRA on more complex compliance and avoidance in relation to LTT, and would transfer knowledge and expertise. This team could lead on LTT technical queries and guidance, risk analysis and liaison with

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 32, 21 Hydref 2015

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 162, 21 Hydref 2015

¹²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 22, 21 Hydref 2015

¹²² FIN(4)-26-15 P3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, 4 Tachwedd 2015

WRA drawing on their experience of the HMRC office in Porthmadog.”¹²³

136. Eglurodd y Gweinidog mai ei bwriad oedd y byddai ACC yn ymgymryd â'r gwaith o gasglu Treth Gwarediadau Tirlenwi gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynorthwyo â'r ochr gydymffurfio, sef yr hyn y mae eisoes yn ymwneud ag ef i raddau helaeth gyda gweithredwyr tirlenwi. Dywedodd fod hyn yn debyg i'r sefyllfa yn yr Alban lle mae:

“Revenue Scotland is collecting the taxes, but they also have a management agreement in terms of delegation with their environmental body as well.”¹²⁴

137. Fodd bynnag, roedd y Gweinidog yn cydnabod y byddai gweithgaredd cydymffurfio ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn faes newydd i Cyfoeth Naturiol Cymru ac roedd yn disgwyl y byddai nifer bach o staff ychwanegol yn ofynnol i ymgymryd â'r gweithgaredd hwn.¹²⁵

138. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cytuno i sefydlu gweithgor ar y cyd â llywodraeth leol i gael trafodaethau pellach a'i bod yn bosibl y bydd gan lywodraeth leol rôl agosach o lawer o ran casglu trethi yn y dyfodol.¹²⁶

139. O ran atebolrwydd, cadarnhaodd y Gweinidog fod gofyniad o dan adran 13 o'r Bil bod yn rhaid i ACC gyhoeddi gwybodaeth am ddirprwyo ac y byddai hyn yn sicrhau y gellid craffu ar y cytundeb rhwng ACC a'r corff dirprwyedig.

140. Dywedodd y byddai ACC yn cael adroddiadau rheolaidd gan CThEM ynglŷn â pherfformiad a bod swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes yn datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth â CThEM.¹²⁷

141. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a fyddai'n ofynnol i CThEM ddarparu gwybodaeth am drafodiadau lle mai'r nod yw osgoi trethi ledled y DU a all gael effaith ar drethi datganoledig, cadarnhaodd y

¹²³ FIN(4)-26-15 P3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, 4 Tachwedd 2015

¹²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 21 Hydref 2015

¹²⁵ FIN(4)-26-15 P3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, 4 Tachwedd 2015

¹²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 26 a 36, 21 Hydref 2015

¹²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 42 a 44, 21 Hydref 2015

Gweinidog y byddai rhannu data yn rhan o'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth. Dywedodd ei swyddog:

“the initial memorandum of understanding is obviously at official level, so there's clarity as to sharing of information. When we actually get to the partnership agreement, as we're calling it, which will be between the WRA and HMRC, that will, obviously, be quite a different instrument that will set out what's expected. So, that will clarify such things as service level expectations, and what have you, that are required and then, of course, that feeds in to the WRA's monitoring arrangements with HMRC as to the services that they're providing on their behalf. So, that should be then monitored regularly and progress against it then assessed and, as appropriate, details fed back to Ministers as to what that progress is, obviously, because, ultimately, WRA are delivering Ministers' tax priorities.”¹²⁸

142. Mewn tystiolaeth bellach, dywedodd y Gweinidog:

“All Welsh devolved tax data and information would be the property of the WRA, and would be separately provided to the WRA for use in complex compliance work, performance reporting and other analysis (for example forecasting). The Committee referred to a close link between Welsh and non-devolved taxes, but as confirmed at Committee, this would not be the case and Welsh taxes will be kept discreet from the other non-devolved taxes that are managed by HMRC.”¹²⁹

143. Tynnodd y Gweinidog hefyd sylw at y gofyniad i ACC gyhoeddi Adroddiad Blynyddol a gosod copi gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Dywedodd y byddai'n disgwyl i'r adroddiad blynyddol gynnwys gwybodaeth am berfformiad gan CThEM a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran casglu a rheoli trethi Cymru ac y byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Cynulliad graffu ar weithrediad cyfan ACC, gan gynnwys yr hyn a gyflawnir gan CThEM.¹³⁰

¹²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 151, 21 Hydref 2015

¹²⁹ FIN(4)-26-15 P3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, 4 Tachwedd 2015

¹³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 17 Medi 2015

144. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn berthnasol i'r Bil yn awtomatig ac felly nid yw'n ofynnol cael darpariaeth benodol yn y Bil. Dywedodd:

“...we will expect the WRA to have its own Welsh language standards, and it will need to agree that with the Welsh Language Commissioner.”¹³¹

Ein barn ni

145. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r ddarpariaeth y bydd ACC yn gallu dirprwyo swyddogaethau gweithredol a rheoli i gyrff eraill fel y nodir yn adran 13. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai cytundebau lefel gwasanaeth ffurfiol rhwng ACC a chyrrff dirprwyedig fod yn sail i'r trefniadau hyn er mwyn sicrhau atebolrwydd digonol.

146. Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i *Gasglu Trethi Datganoledig* roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd bod gan awdurdodau lleol gryn brofiad o gasglu trethi ac mae'r Pwyllgor yn siomedig nad oedd awdurdodau lleol, oherwydd cyfyngiadau amser, wedi gallu paratoi cynnig i'r Gweinidog er mwyn iddynt gael eu hystyried fel cyrrff casglu trethi.

147. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog yn sefydlu gweithgor gyda llywodraeth leol. Mae'r Pwyllgor yn annog y Gweinidog i ystyried y posibilrwydd i awdurdod lleol ymgymryd â'r gwaith casglu trethi i fanteisio ar y wybodaeth a'r profiad helaeth.

148. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf os bydd casglu trethi yn cael ei ddirprwyo i CThEM, dylai fod yn ofynnol i CThEM ddarparu llif gwybodaeth llawn o'r ymholiadau treth a gynhelir a all gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar gasglu Treth Trafodiadau Tir. At hynny, bydd angen i ACC gael adnoddau priodol i fynd ar drywydd casglu trethi o strwythurau osgoi treth lle mai'r prif ddiben o bosibl fydd osgoi trethi heb eu datganoli ond sy'n cael effaith andwyol ar enillion trethi datganoledig.

149. Er gwaethaf sicrwydd y Gweinidog, mae'r Pwyllgor yn pryderu o hyd y gall y cysylltiad agos rhwng trethi Cymru a threthi heb eu datganoli arwain at achosion o ddiffyg cydymffurfio a cholli referniw i

¹³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 193, 21 Hydref 2015

ACC. Mae nodyn sy'n rhoi'r cefndir i'n pryderon a thair sefyllfa enghreifftiol wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

150. Clywodd y Pwyllgor for CThEM yn debygol o ymgymryd â swyddogaethau treth trafodiadau tir ochr yn ochr â threth dir y dreth stamp o'i swyddfa yn Birmingham. Mae'r Pwyllgor yn pryderu os bydd swyddogaethau'n cael eu dirprwyo i CThEM ceir risg na fyddant yn darparu gwasanaeth wedi'i deilwra i Gymru, gan arwain at bryderon pellach ynghylch gallu CThEM i ymdrin â threthdalwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf bod angen gwasanaeth lleol i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o wasanaethau Cymraeg.

Argymhelliad 13: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod llinellau atebolrwydd clir yn cael eu sefydlu, drwy femorandwm cyd-ddealltwriaeth neu gytundeb lefel gwasanaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a'r cyrff dirprwyedig sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli trethi. Dylai'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth neu'r cytundeb lefel gwasanaeth nodi safonau clir ar gyfer ymdrin â threthdalwyr,

Argymhelliad 14: Mae'r Pwyllgor yn argymhell, lle mae Awdurdod Refeniw Cymru yn dirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau i sefydliad/sefydliadau, y dylid ystyried sicrhau bod y sefydliad/sefydliadau'n darparu lefel uchel o arbenigedd i drethdalwyr Cymru, gan gynnwys ystyried darpariaethau cyfrwng Cymraeg a nodi darpariaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg mewn Datganiad o Safonau Gwasanaeth.

7. Cyfarwyddiadau Cyffredinol

Cefndir

151. Mae adran 14 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau o natur gyffredinol i ACC, a bod rhaid i ACC, wrth arfer ei swyddogaethau, gydymffurfio â hwy. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Gallant ymwneud â blaenoriaethau polisi strategol, er enghraifft, neu ag ACC yn arfer ei bwerau dirprwyo o dan adran 13.”¹³²

152. Rhaid i gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru gael eu cyhoeddi oni bai bod Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai hynny'n niweidio gallu ACC i arfer ei swyddogaethau'n effeithiol.¹³³

Tystiolaeth gan ymatebwyr

153. Dywedodd Cyllid yr Alban nad oes gan Weinidogion yr Alban bŵer i'w cyfarwyddo.¹³⁴ Fodd bynnag, dywedwyd bod RSTPA 2014 yn cynnwys y ddarpariaeth ganlynol:

“Scottish Ministers may give guidance to Revenue Scotland about the exercise of its functions, and Revenue Scotland must have regard to any guidance given by Ministers.”¹³⁵

154. Dywedodd Cyllid yr Alban fod hwn yn gydbwysedd gofalus oherwydd bod yn rhaid iddo ystyried y canllawiau ond nad oes rhwymedigaeth arno i'w dilyn.¹³⁶ Aeth ymlaen i ddweud:

“... So, we've drawn a very clear distinction between a power of direction, which Ministers don't have, and a power for Ministers to give guidance, which Revenue Scotland essentially would have to take into account, but isn't under a specific statutory duty to give effect to.”¹³⁷

¹³² Memorandwm Esboniadol

¹³³ *ibid*

¹³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 35, 1 Hydref 2015

¹³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 1 Hydref 2015

¹³⁶ *ibid*

¹³⁷ *ibid*

155. Dywedodd CThEM fod rhan 14 o'r Bil yn ehangach na'r pŵer cyfatebol yn *Neddf Comisiynwyr a Thollau 2005 (CRCA 2005)*¹³⁸ ac nid oeddent o'r farn bod y Bil yn peri unrhyw bryder arbennig.¹³⁹

156. Dywedodd CThEM ei fod yn cael cyfarwyddiadau drwy lythyr cylch gwaith blynyddol Canghellor y Trysorlys i CThEM, sy'n cael ei gyhoeddi ac yn nodi'r blaenoriaethau allweddol.¹⁴⁰

157. Roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn teimlo ei bod yn ddigon rhesymol i'r Llywodraeth roi cyfarwyddiadau i ACC ond gall fod rhai cyfarwyddiadau y mae'r ddeddfwriaeth yn eu nodi nad ydynt yn cael eu datgelu i'r cyhoedd.¹⁴¹ Dywedodd hefyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai adran 14 yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru anfon copi o'r holl gyfarwyddiadau a roddir i ACC at yr Archwilydd Cyffredinol.¹⁴²

Tystiolaeth gan y Gweinidog

158. Wrth roi sylwadau ar y ddarpariaeth i roi cyfarwyddiadau dywedodd y Gweinidog ei bod wedi ystyried trefniadau mewn awdurdodaethau eraill rhwng Gweinidogion a CThEM a Chyllid yr Alban a'i dewis hi fyddai:

“remain consistent with the current Treasury/HMRC model, although with the introduction of a greater degree of transparency (because Welsh Ministers will be under a duty to publish directions unless they consider that this would prejudice the effective exercise of WRA's functions).”¹⁴³

159. Pwysleisiodd y Gweinidog fod pwerau cyfarwyddo yn angenrheidiol ac yn gymesur a dywedodd:

“Welsh Ministers need to have sufficient powers to further policy in Wales to ensure that Welsh tax arrangements are efficient and effective.”¹⁴⁴

160. Dywedodd ei bod yn rhag-weld mai anaml y byddai cyfarwyddyd yn cael ei roi ac mewn amgylchiadau anarferol gan ddatgan:

¹³⁸ www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/11/contents

¹³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 230, 1 Hydref 2015

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 228, 1 Hydref 2015

¹⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 209, 15 Hydref 2015

¹⁴² Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 02

¹⁴³ FIN(4)-21-15 PTN1: Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

¹⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 95, 17 Medi 2015

“Firstly, the power itself is limited to issuing directions of a general nature. Welsh Ministers will simply not be able to interfere in individual taxpayer’s affairs. This is distinct from other bodies, for example Natural Resources Wales, where Ministers are able to issue directions of a specific nature.

“Secondly, Welsh Ministers must publish any directions given unless they consider that publication would prejudice the effective exercise of WRA’s functions. This goes further than the equivalent provision for HMRC, which does not require publication at all.”¹⁴⁵

161. Dywedodd y byddai bod yn agored a’r posibilrwydd ar gyfer craffu cyhoeddus yn sicrhau nad oedd y pwerau’n cael eu defnyddio’n amhriodol ac y byddai cyfarwyddiadau o’r fath, a roddir yn gyhoeddus, yn destun craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol ac i egwyddorion cyfraith gyhoeddus arferol ac y gallent, o bosibl, gael eu herio yn y llys.¹⁴⁶

162. Yn ystod tystiolaeth bellach, cadarnhaodd y Gweinidog ei bwriad i gyflwyno gwelliant yn nhrefodion Cyfnod 2¹⁴⁷ i ddileu’r cafeat yn adran 14(6) nad yw’n ofynnol i Weinidogion gyhoeddi cyfarwyddyd os ydynt o’r farn y byddai ei gyhoeddi yn niweidio gallu ACC i arfer ei swyddogaethau’n effeithiol.¹⁴⁸

Ein barn ni

163. Mae’r Pwyllgor yn nodi safbwynt y Gweinidog bod y pwerau cyfarwyddo yn y Bil yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er bod y Pwyllgor yn derbyn y bydd rhywfaint o gyfarwyddyd yn angenrheidiol i bennu polisi treth a chynnal trosolwg strategol, rydym yn pryderu y gall y ddarpariaeth gael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru i atal ACC rhag arfer ei swyddogaethau gwetihredol.

164. Fel y nodir ym mharagraff 60 o’r adroddiad hwn, mae RSTPA 2014 yn cynnwys darpariaeth sy’n gwarantu annibyniaeth weithredol Cyllid yr Alban oddi wrth Lywodraeth yr Alban a chredwn y dylai’r un peth gael ei gynnwys yn y Bil yn benodol mewn perthynas â rhoi cyfarwyddiadau.

¹⁴⁵ FIN(4)-21-15 PTN1: Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

¹⁴⁶ *ibid*

¹⁴⁷ Mae trafodion Cyfnod 2 yn amodol ar gytundeb y Cynulliad yng Nghyfnod 1

¹⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 182, 21 Hydref 2015

165. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i ddileu'r cafeat yn adran 14(6) nad yw'n ofynnol i Weinidogion gyhoeddi cyfarwyddyd os ydynt o'r farn y byddai ei gyhoeddi yn niweidio gallu ACC i arfer ei swyddogaethau'n effeithiol.

Argymhelliad 15: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i atal Llywodraeth Cymru rhag ymyrryd ag Awdurdod Cyllid Cymru o ran arfer ei swyddogaethau gweithredol.

8. Siarter safonau a gwerthoedd

166. Mae Adran 25 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC baratoi Siarter, ymgynghori arni, ei chyhoeddi a'i gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y Siarter hon yn nodi'r safonau ymddygiad a'r gwerthoedd y bydd aelodau a staff ACC yn ymgynghori atynt wrth ymdrin â threthdalwyr a'u hasiantau.

167. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol i ACC greu diwylliant cadarnhaol o ran talu trethi, hyrwyddo cydymffurfiaeth ac annog pobl i beidio ag osgoi talu trethi. I'r perwyl hwn, dylai ACC geisio datblygu a chynnal cysylltiadau da â threthdalwyr a'u hasiantau yn barhaus. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen iddo fod yn glir am ei ddisgwyliadau ei hun am drethdalwyr, a hefyd yr hyn y gall threthdalwyr ei ddisgwyl ganddo.”¹⁴⁹

168. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i nodi y caiff y Siarter ei datblygu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a'i hadolygu'n rheolaidd, eto drwy ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ACC adrodd ar effeithiolrwydd ei Siarter fel rhan o'i adroddiad blynyddol.¹⁵⁰

Tystiolaeth gan ymatebwyr

169. Cafwyd cefnogaeth helaeth ymhlith yr ymatebwyr ar gyfer cynnwys Siarter ar sail statudol sy'n nodi hawliau a chyfrifoldebau threthdalwyr ac ACC. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol rhagnodi cynnwys y Siarter ar wyneb y Bil.

170. Dywedodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr:

“I think the fact that it's [the Bill] mentioned the charter and it requires the WRA to put that charter out there is the important thing. It would be really difficult for the Bill to go into detail underneath that.”¹⁵¹

¹⁴⁹ Memorandwm Esboniadol

¹⁵⁰ *ibid*

¹⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 257, 7 Hydref 2015

171. Roedd sawl tyst arall yn rhannu'r farn hon gan gynnwys Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig¹⁵² a CThEM¹⁵³. Roedd CLILC yn hyrwyddo'r dull hwn gan ddweud bod angen cael hyblygrwydd er mwyn ei datblygu wrth iddi fynd yn ei blaen.¹⁵⁴

172. Mae hyn yn dilyn y dull a gymerwyd gan Gyllid yr Alban a gadarnhaodd fod gofyniad o dan RSTPA 2014 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael siarter. Fodd bynnag, nid yw cynnwys gwirioneddol y siarter yn y ddeddfwriaeth.¹⁵⁵

173. Mae Adran 25(2)(a) y Bil yn nodi:

“safonau ymddygiad a gwerthoedd y bydd ACC yn **ymgyrraedd** [pwyslais wedi'i ychwanegu] atynt wrth ymdrin â threthdalwyr datganoledig, eu hasiantiaid a phersonau eraill wrth arfer ei swyddogaethau.”¹⁵⁶

174. Dywedodd y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel er bod y gair ymgyrraedd (aspire) yn cael ei ddefnyddio yn adran 16A o CRCA 2005 mewn perthynas â siarter CThEM, roeddent o'r farn ei fod yn ddewis gwael o ran gair ac argymhellwyd y byddai'r geiriau 'glynu wrth' yn fwy priodol fel y'u defnyddir yn RSTPA 2014 mewn perthynas â Siarter yr Alban.¹⁵⁷ Gwnaethant nodi:

“The advantage of using the word ‘adhere’ rather than ‘aspire’ is that it places a more balanced demand on both taxpayers and the WRA regarding their behaviour; adhering to the Charter would mean to ‘believe in and follow the practice of’ which would be in line with the purpose of the Charter of standards and values.”¹⁵⁸

175. Roedd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr o'r farn y dylai Siarter anelu at wneud mwy na dim ond adlewyrchu dyheadau.¹⁵⁹ Dywedodd:

¹⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 258, 7 Hydref 2015

¹⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 236, 1 Hydref 2015

¹⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 15 Hydref 2015

¹⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 1 Hydref 2015

¹⁵⁶ Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

¹⁵⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 01A tystiolaeth ychwanegol

¹⁵⁸ ibid

¹⁵⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 09

“... good tax compliance is encouraged by an efficient and effective tax administration service and the Charter should reflect this commitment. It needs to have some practical value and a reasonable set of service standards and behaviours that taxpayers can use and rely upon in their dealings with the revenue authority.”¹⁶⁰

176. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Sefydliad Bevan a'r Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel, bwysigrwydd y Siarter yn cael ei datblygu drwy ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid.¹⁶¹

177. Dywedodd Cyllid yr Alban iddynt gynnal ymgynghoriad dau gam wrth greu ei Siarter, gan ysgrifennu'n gyntaf at nifer o gyrrff proffesiynol a grwpiau â diddordeb yn gofyn iddynt beth ddylai nodweddion allweddol y Siarter fod.¹⁶² Aeth ymlaen i ddweud:

“We gathered all of that material together, then we drafted something, and then we put that out for full public consultation. We got some responses back, and we then produced the version that is now available on our website.”¹⁶³

178. Gofynnodd rhai ymatebwyr pryd y dylai'r Siarter gychwynnol gael ei chyhoeddi. Dywedodd y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel ei bod yn bwysig bod y Siarter yn barod ac y dylai ei diben gael ei chyhoeddi cyn 1 Ebrill 2018 oherwydd dim ond yn effeithiol os bydd trethdalwyr datganoledig yn ymwybodol o'r Siarter y bydd yn effeithiol ac y bydd unrhyw werth iddi.¹⁶⁴

179. Cytunodd y Sefydliad Siartredig Trethiant ac Archwilydd Cyffredinol Cymru y dylai dyddiad terfyn gael ei bennu ar gyfer cyhoeddi'r Siarter gychwynnol.¹⁶⁵

180. Er bod Cymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor Caerdydd yn awyddus i weld y Siarter yn dod yn rhan o drefniadau llywodraethu ACC, awgrymodd Cyngor Caerdydd:

“there could be principles or standards within the charter that the WRA then report back to Welsh Government on every year,

¹⁶⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 09

¹⁶¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 04 a TCM 01

¹⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 65, 1 Hydref 2015

¹⁶³ ibid

¹⁶⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 01

¹⁶⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 10 TCM 02

to set out that they're actually reaching the standards that are set out within the charter."¹⁶⁶

181. Roedd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr hefyd yn teimlo y dylai'r Siarter fod yn berthnasol yn benodol i unrhyw gyrff datganoledig a benodir gan ACC.¹⁶⁷

182. Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd yn nodi cefnogaeth i'r Siarter gael ei hadolygu o bryd i'w gilydd. Roedd Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig yn teimlo bod pennu terfynau amser penodol ar gyfer y Siarter yn creu'r risg o'i throï'n broses ticio blwch.¹⁶⁸

183. Fodd bynnag, dywedodd y Sefydliad Siartredig Trethiant er ei fod yn cydnabod yr angen am hyblygrwydd, byddai'n well ganddo broses wedi'i diffinio'n well a llinell amser neu ysgogiad ar gyfer adolygu'r Siarter.¹⁶⁹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

184. Dywedodd y Gweinidog fod y Siarter yn hanfodol o ran y diwylliant yr oedd am i ACC ei greu a bod y Siarter yn arfer da.¹⁷⁰

185. Cadarnhaodd fod y dull a fabwysiadwyd yn gyson â dulliau CThEM a Cyllid yr Alban, o ran bod gofyniad am Siarter yn y Bil ond nid yw'r cynnwys wedi'i ragnodi heblaw am sefydlu'r berthynas gywir rhwng yr awdurdod refeniw a'r trethdalwr.¹⁷¹

186. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n dechrau ymgynghori ar y Siarter yn y flwyddyn newydd gan ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Dywedodd y byddai'n dda inni gychwyn trafodaethau ac ymgynghori ar y siarter.¹⁷²

187. Cadarnhaodd mai cyfrifoldeb ACC fydd paratoi'r Siarter ond byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith cyn sefydlu ACC er mwyn paratoi'r ffordd.¹⁷³ Ychwanegodd ei swyddog:

¹⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 80, 15 Hydref 2015

¹⁶⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 09

¹⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 271, 7 Hydref 2015

¹⁶⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 10

¹⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 170, 17 Medi 2015

¹⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 181, 17 Medi 2015

¹⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff 170 Medi 2015

¹⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 21 Hydref 2015

“It’s absolutely right that it’s the responsibility of the Welsh revenue authority to ultimately publish the charter, and they have the responsibility for that. But, in getting a broad view as to what that content might be and helping them to be in a state of readiness... I think the key is around timing here as well. We are talking of 1 April 2018. That’s not a huge amount of time to prepare for this. So, the more things that are ready, so that the charter is there at the outset from when devolved taxes take effect, that’s very important.”¹⁷⁴

188. Gofynnodd y Pwyllgor i’r Gweinidog pa ddulliau fyddai yn eu lle ar gyfer gwneud iawn pe bai trethdalwr o’r farn nad yw wedi’i drin yn unol â’r Siarter. Dywedodd y Gweinidog:

“We would see that charter, again, as signposting people to complaints procedures. The WRA will have to have a complaints procedure. In fact, those are exactly the sorts of questions that we would want to make very clear in the consultation about how we can help taxpayers if they feel they have been badly treated or they have a complaint—how they can manage that. But, also, it will be not just a complaints procedure that they would have access to but, ultimately, the public services ombudsman. The Bill provides for the WRA to fall inside the ombudsman’s jurisdiction.”¹⁷⁵

189. Mewn tystiolaeth bellach cadarnhaodd y Gweinidog y byddai unrhyw anghydfodau rhwng trethdalwr ac ACC o ran cydymffurfio â’r Siarter yn fater i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei ystyried, yn hytrach na’r llysoedd neu’r tribiwnlysoedd.¹⁷⁶

190. Mewn perthynas â’r defnydd o’r gair “ymgyrraedd” dywedodd y Gweinidog ei fod yn gyson â deddfwriaeth CThEM. Fodd bynnag, byddai’n fodlon ystyried barn y pwyllgor.¹⁷⁷

Ein barn ni

191. Mae’r Pwyllgor yn cefnogi cynnwys Siarter ar wyneb y Bil, sy’n nodi hawliau a chyfrifoldebau trethdalwyr. Mae’r Pwyllgor yn credu y

¹⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 181, 17 Medi 2015

¹⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 21 Hydref 2015

¹⁷⁶ FIN(4)-26-15 P3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, 4 Tachwedd 2015

¹⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 105, 21 Hydref 2015

dylai'r Siarter fod yn seiliedig ar egwyddor ac y dylai gyfeirio'n benodol at yr angen i sicrhau gwasanaeth o ansawdd i'r trethdalwr.¹⁷⁸

192. Mae'r Pwyllgor yn fodlon nad yw'r Bil yn rhagnodi cynnwys y Siarter a bydd hyn yn darparu'r hyblygrwydd gofynnol i'w datblygu yn y dyfodol.

193. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd y Siarter yn ddull defnyddiol o godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd ac y gallai fod yn ddefnyddiol o ran cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Siarter gyntaf fod yn ei lle cyn bod unrhyw drethi datganoledig yn cael eu cyflwyno.

Argymhelliad 16: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i'r Siarter gyfeirio'n benodol at:

- wasanaeth o ansawdd i'r trethdalwr;
- ei pherthnasedd i gyrff datganoledig sydd â chyfrifoldeb am gasglu a rheoli trethi.

Argymhelliad 17: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Siarter gyntaf gael ei chyhoeddi cyn bod y trethi perthnasol yn cael eu datganoli'n ffurfiol i Gymru ym mis Ebrill 2018.

Argymhelliad 18: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Bil yn cael ei ddiwygio fel bod:

- adran 25(2)(a) yn rhoi'r geiriau "glynu wrth" yn lle'r gair "ymgyrraedd";
- y gofyniad o dan adran 25(3)(b) i adolygu'r Siarter "o bryd i'w gilydd" yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer adolygiad o leiaf bob pum mlynedd.

¹⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 283, 7 Hydref 2015

9. Cynllun Corfforaethol ac Adroddiad Blynyddol

Cefndir

194. Mae adran 26 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC baratoi Cynllun Corfforaethol ar gyfer pob cyfnod cynllunio. Diffinnir cyfnod cynllunio yn y Bil, ac mae'r cynllun cyntaf i'w gyhoeddi heb fod yn hwyrach nag ar ddyddiad a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Mae cynlluniau dilynol i'w cyflwyno bob 3 blynedd wedi hynny.

195. Rhaid i'r Cynllun Corfforaethol ddisgrifio prif amcanion ACC, y canlyniadau y gellir mesur yr amcanion hynny yn eu herbyn a'r gweithgareddau y mae'n disgwyl ymgymryd â hwy yn ystod y cyfnod cynllunio. Rhaid i Gynlluniau Corfforaethol gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo ganddynt, a rhaid i Gynlluniau Corfforaethol a gymeradwywyd gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u cyhoeddi.

196. Caiff ACC gyflwyno Cynllun Corfforaethol diwygiedig ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod cynllunio, i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r cyfnod cynllunio tair blynedd drwy orchymyn fel y gwelant yn dda.

197. Mae adran 27 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar yr hyn y mae wedi ei wneud i gyflawni ei amcanion yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei anfon at Weinidogion Cymru a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Tystiolaeth gan ymatebwyr

198. Mae'r Bil yn cyfeirio at y Cynllun Corfforaethol yn nodi "canlyniadau y gellir mesur i ba raddau y cyflawnwyd y prif amcanion drwy gyfeirio atynt". Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn argymhell y dylai'r Bil gyfeirio at "fesurau perfformiad allweddol" yn hytrach na "canlyniadau". Nododd ei swyddog:

"I think the measures need to be outcome focused...It could be fairly sophisticated: responses on simple queries; responses on more complex queries; accuracy of information processing, as it's very important that they get it right first time; handling of complaints; handling of appeals. We expect to see something

around those kinds of areas, which takes us back to those customer service points and that sense of how it engages in its business.”¹⁷⁹

199. Roedd swyddog Archwilydd Cyffredinol Cymru o’r farn mai’r cymharydd amlwg fyddai edrych ar CThEM o ran sut y mae’n cofnodi ei berfformiad, pa fesurau y mae’n eu defnyddio a pha mor aml y mae’n cyflwyno adroddiadau.¹⁸⁰

200. Tynnodd sawl ymatebydd arall sylw at bryderon ynghylch yr amseru ar gyfer cyhoeddi’r Cynllun Corfforaethol a’r Adroddiad Blynyddol. Dywedodd Sefydliad Siartredig Trethiant fod yr amseru braidd yn amwys.¹⁸¹

201. Mae’r Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel yn mynegi pryderon bod y Bil yn cyfeirio at baratoi’r Adroddiad Blynyddol cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ond nid yw’n rhoi diffiniad o “resymol ymarferol”. Mae’n argymhell y dylid cynnwys terfyn amser o bedwar mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu yn y Bil i sicrhau nad oes unrhyw oedi hirfaith.¹⁸²

202. Roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cytuno a dywedodd y byddai’n cynorthwyo o ran arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag ACC pe bai’n ofynnol paratoi’r Adroddiad Blynyddol heb fod yn hwyrach na’r dyddiad terfyn cyflwyno ar gyfer cyfrifon ACC, sef 31 Awst yn y flwyddyn ariannol ddilynol y maent yn ymwneud â hi. Dywedodd y byddai hyn yn gam sylweddol i wella atebolrwydd, tryloywder a chraffu o ran gweithrediadau ACC.¹⁸³ Dywedodd:

“The revenue authority will be subject to the Treasury’s broad financial reporting memorandum, and that requires that there is an annual report—it may not be called an annual report—sitting alongside the accounts. I will need to audit that because that’s the basis under which I give an opinion. If we have a separate document too far apart from that, which may start to

¹⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 240, 15 Hydref 2015

¹⁸⁰ *ibid*

¹⁸¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 10

¹⁸² Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 01

¹⁸³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 02

include some financial figures, I'll need to audit again that particular document.”¹⁸⁴

203. Dywedodd Cyllid yr Alban fod yn rhaid iddo gytuno ar ei gynllun corfforaethol, ei strategaeth a'i dargedau lefel uchel gyda Gweinidogion. Dywedodd:

“There would be a discussion between Ministers and the board of Revenue Scotland to reach a version of our corporate plan that they could all agree on.”¹⁸⁵

204. Croesawodd y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel atebolrwydd ACC i Weinidogion Cymru drwy gyflwyno Cynllun Corfforaethol ac Adroddiadau Blynyddol.¹⁸⁶

205. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill, gan gynnwys Sefydliad Bevan a'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn teimlo bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i rôl y Cynulliad Cenedlaethol wrth graffu ar ACC. Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn teimlo y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil ar gyfer sicrhau bod un o Bwyllgorau'r Cynulliad yn craffu'n fanylach ar y cynllun corfforaethol.¹⁸⁷

206. Roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr hefyd yn pryderu os nad yw atebolrwydd yn cael ei nodi gyda phwyllgor unigol, ni fyddai perthynas wedyn rhwng yr awdurdod a'r archwiliwr sy'n craffu.¹⁸⁸

Tystiolaeth gan y Gweinidog

207. Wrth roi sylwadau ar y cynnig arfaethedig i baratoi'r Adroddiad Blynyddol heb fod yn hwyrach na 31 Awst, dywedodd y Gweinidog:

“we would of course expect the annual accounts to be submitted and audited well in advance of that date. I mean, lawyers tell me it's not necessary to have the legal provision for the annual report in the Bill, but I expect that copy of the annual report to be produced in the same time frame as the accounts.”¹⁸⁹

¹⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 243, 15 Hydref 2015

¹⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 49, 1 Hydref 2015

¹⁸⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 01

¹⁸⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 08

¹⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 455, 7 Hydref 2015

¹⁸⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 190, 17 Medi 2015

208. Dywedodd swyddogion y Gweinidog ei fod yn ymwneud â sicrhau cydbwysedd rhwng caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i ACC a symud ymlaen gan ddisgwyl y bydd pethau'n mynd i weithio ac na fydd problemau.¹⁹⁰

209. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r Cynllun Corfforaethol, yr Adroddiad Blynyddol, y Cyfrifon Blynyddol a Datganiad Treth blynyddol (trafodir yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Treth blynyddol ymhellach ym mhennod 10) yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i benderfynu sut y mae'n craffu ar ACC.¹⁹¹

Ein barn ni

210. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag Archwilydd Cyffredinol Cymru y dylai'r Cynllun Corfforaethol fesur mesuriadau perfformiad allweddol yn hytrach na chanlyniadau. Yn eu hanfod, mae "canlyniadau" ansoddol yn anodd eu mesur ac mae'r Pwyllgor o'r farn efallai na fydd yn bosibl penderfynu a yw canlyniad penodol wedi'i gyflawni.

211. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gofyniad i ACC osod ei Adroddiad Blynyddol, Cyfrifon Blynyddol, Cynllun Corfforaethol a'i Ddatganiadau Treth. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'r Bil yn cael ei gryfhau pe bai gofyniad penodol i sicrhau bod gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad rôl ddynodedig i graffu'n ffurfiol ar ACC yn yr un modd ag y mae adran 28 *Swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol* yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, yn rhoi'r awdurdod i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud darpariaeth yn ei Reolau Sefydlog fel bod un (neu ragor) o'i bwyllgorau yn gallu arfer y swyddogaethau hynny yn ymwneud â goruchwylio'r Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Argymhelliad 19: Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio adran 26(2) i sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys mesurau perfformiad allweddol.

Argymhelliad 20: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai adran 27 o'r Bil nodi y dylai'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach na 31 Awst i sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gael o fewn cyfnod amser penodol i sicrhau atebolrwydd, tryloywder a chraffu effeithiol ar weithrediadau Awdurdod Cyllid Cymru.

¹⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 196, 17 Medi 2015

¹⁹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 184, 21 Hydref 2015

Argymhelliad 21: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi Pwyllgor i graffu ar Awdurdod Cyllid Cymru.

10. Archwilio

Cefndir

212. Mae adran 30 yn nodi erbyn pa bryd y mae'n rhaid i ACC gyflwyno'r cyfrifon a'r Datganiad Treth i Archwilydd Cyffredinol Cymru at ddibenion archwilio.

Tystiolaeth gan ymatebwyr

213. Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y dylai adran 30(3)(a) sy'n nodi "yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon" fynd ymhellach i gynnwys "ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu".¹⁹² Dywedodd y byddai hyn yn sicrhau bod geiriad y ddarpariaeth archwilio yn gyson â'r ddarpariaeth archwilio ar gyfer cyfrifon Gweinidogion Cymru fel y'i nodir yn adran 131 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.¹⁹³

214. Mae Adran 32 ar *Swyddog cyfrifo* yn nodi mai Prif Weithredwr ACC yw swyddog cyfrifo ACC. Mewn perthynas â llofnodi cyfrifon, dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y gallai'r Prif Weithredwr, o dan adran 32(3)(a), gael cyfrifoldebau am y tro. Roedd o'r farn y byddai'n briodol sôn yn benodol am:

"both the WRA's annual accounts and the annual Tax Statement in that subsection, as in my view the signing of the Tax Statement would not fall within the definition of 'signing of accounts.'"¹⁹⁴

215. Roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn pryderu bod y Datganiad Treth yn ymddangos fel pe bai y tu allan i ddarpariaeth codi ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru.¹⁹⁵ Ychwanegodd:

"Section 23(2) of the Public Audit (Wales) Act 2013 says, 'The WAO may charge a fee in relation to the audit of a person's accounts or statement of accounts'. While there may be scope for argument, it appears that the Tax Statement is not a 'person's accounts or statements of accounts'. In the absence

¹⁹² Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 02

¹⁹³ www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/contents

¹⁹⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 02

¹⁹⁵ *ibid*

of a fee, the cost of the examination will need to be borne by the WAO's Estimate."¹⁹⁶

Tystiolaeth gan y Gweinidog

216. Cadarnhaodd y Gweinidog mai ei bwriad, yn dilyn y dystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, oedd cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i roi'r pŵer i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi am archwilio'r Datganiad Treth.¹⁹⁷

Ein barn ni

217. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pryderon Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â chodi ffi am archwilio'r Datganiad Treth ac yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 gan roi'r pŵer hwn i SAC.

Argymhelliad 22: Mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio adran 30(3) er mwyn sicrhau bod geiriad y ddarpariaeth archwilio yn y Bil yn gyson â'r ddarpariaeth archwilio ar gyfer cyfrifon Gweinidogion Cymru fel y'i nodir yn adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Argymhelliad 23: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 32(3)(a) ynglŷn â chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â llofnodi'r cyfrifon gyfeirio'n benodol at y cyfrifon blynyddol a'r Datganiad Treth blynyddol.

¹⁹⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 02

¹⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 203, 21 Hydref 2015

11. Rhannau 3 - 9 Ffurflenni Treth, Ymchwiliadau, Cosbau, Llog, Talu a Gorfodi, Adolygiadau ac Apelau, Ymchwilio i Droseddau

Cefndir

218. Mae Rhannau 3 i 9 o'r Bil yn ymdrin â'r pwerau y bydd gan ACC dros gasglu trethi a'r rhwymedigaethau amrywiol ar drethdalwyr. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn glir bod mwyafrif y pwerau hyn yn gyson â'r rhai sy'n cael eu gweithredu gan CThEM yng Nghymru ar hyn o bryd. Felly mae llawer o'r geiriad yn y Bil yn seiliedig ar ddeddfwriaeth gyfatebol y DU.

Tystiolaeth gan ymatebwyr

Rhan 3: Ffurflenni treth, ymholiadau ac asesiadau

219. Roedd Deloitte yn fodlon bod Rhan 3 o'r Bil ymlaen yn ymddangos fel pe bai'n seiliedig ar ddeddfwriaeth bresennol y DU yn ymwneud â threthi hunanasesiadau, fel treth gorfforaeth ac roeddent yn fodlon bod y Bil yn darparu fframwaith digonol o ran gweithredu'r Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru.¹⁹⁸ Fodd bynnag, aeth Deloitte ymlaen i ddweud:

“It is our view that further legislation would be required, mirroring the provisions of the current UK Landfill Tax legislation, to ensure that the Welsh Revenue Authority (WRA) can manage the collection of Landfill Tax in Wales.”¹⁹⁹

220. Mae adran 71 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC roi effaith i hawliad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei wneud. Dywedodd CLA Cymru nad yw'n glir beth mae “cyn gynted ag y bo'n ymarferol” yn ei olygu ac awgrymodd y gallai hyn greu ansicrwydd ynghylch pa mor hir efallai y bydd yn rhaid i drethdalwr aros am benderfyniad neu ad-daliad.²⁰⁰ Maent yn argymhell pennu terfyn amser o ran pa mor hir sydd gan ACC i wneud penderfyniad i sicrhau nad yw'r trethdalwyr yn dioddef oedi gormodol o ran derbyn symiau sy'n ddyledus iddynt.²⁰¹

¹⁹⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 07

¹⁹⁹ ibid

²⁰⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 03

²⁰¹ ibid

Rhan 8: Adolygiadau ac apeliadau

Trefniadau amser i dalu

221. Mae CThEM yn cynnig trefniant Amser i Dalu sy'n ei alluogi i gasglu treth mewn ffordd gost effeithiol. Mae CThEM yn caniatáu i gwsmeriaid hyfyw nad ydynt yn gallu talu ar y dyddiad dyledus wneud taliad(au) dros gyfnod y gallant ei fforddio. Mae'r trefniadau'n cael eu teilwra i allu'r cwsmer i dalu ac maent fel arfer am ychydig fisoedd er y gallant fod am gyfnod hwy. Dim ond mewn achosion eithriadol y cytunir ar drefniadau Amser i Dalu sy'n para dros flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o drefniadau yn cynnwys gwneud taliadau misol rheolaidd ond mewn achosion eithriadol maent yn cynnwys cyfnod byr o ohirio.²⁰²

222. Cadarnhaodd CThEM fod ganddo bŵer dewisol a gynhwysir yn *Neddf Comisiynwyr a Thollau 2005* i fynd i drefniant amser i dalu. Roedd o'r farn bod mynd i drefniant amser i dalu yn ffordd gost effeithiol o gasglu trethi o dan amgylchiadau penodol am ei fod yn caniatáu i drethdalwyr hyfyw dalu eu trethi dros gyfnod y gallant ei fforddio. Aeth ymlaen i ddweud:

“At March 2015, we had about 800,000 time-to-pay arrangements for £2.7 billion and from August 2015, we insist on a direct debit arrangement for time-to-pay arrangements. They very rarely would last for more than a year, and normally, it would be a period of instalments, but in some cases, it might just be a short delay, for time to pay.”²⁰³

223. Mewn perthynas â'r uchod, cadarnhaodd CThEM yn ddiweddarach fod hyn yn golygu yn ymarferol, ar unrhyw bwynt mewn amser, y byddai CThEM yn disgwyl cael tua 15% o'i falans dyled wedi'i gynnwys mewn trefniadau amser i dalu.²⁰⁴

224. Cadarnhaodd CThEM hefyd y byddai trefniant amser i dalu yn cynnwys elfen o log, i adennill y dreth lawn a'r llog sy'n briodol i'r taliad hwyr effeithiol.²⁰⁵

²⁰² www.hmrc.gov.uk/manuals/dmbmanual/DMBM800040.htm

²⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraff 246, 1 Hydref 2015

²⁰⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 13 gwybodaeth ychwanegol

²⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 244, 1 Hydref 2015

225. Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi'r trefniadau amser i dalu, ac roedd y rhan fwyaf o'r farn y dylai fod yn bŵer dewisol ac na ddylid ei gynnwys ar wyneb y Bil.

226. Dywedodd y Sefydliad Siartredig Trethiant ei fod yn bendant yn dda o beth cael y cyfleuster hwnnw ond y byddai is-ddeddfwriaeth yn ffordd well o ymdrin â hyn. Roedd yn pryderu pe bai hyn yn cael ei normaleiddio'n ormod y byddai'n mynd y tu hwnt i reolaeth, o safbwynt y pwrs cyhoeddus.²⁰⁶

227. Roedd Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig yn cytuno bod angen pŵer dewisol ond roedd yn teimlo mai profiad ymarferol CThEM yw y gall trefniant amser i dalu gymryd llawer o amser o'i ran ef, a bod trethdalwyr wedi nodi cryn newid yn y ffordd y mae'n cael ei weithredu.²⁰⁷ Aeth Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ymlaen i ddweud:

"Sometimes, it will seem very lenient, very easy to get into and to flow through with; at other times, it can seem virtually impossible to actually get HMRC to agree to a Time To Pay arrangement, no matter what the circumstances are. So, the practicalities of how to operate it so that it doesn't become such a drain on the WRA's resources will need careful consideration, and there wouldn't be space for all that in the Bill as it stands. But the authority to have that discretion I think has to be there."²⁰⁸

228. Roedd CLA Cymru yn siomedig mai'r unig ffordd y gall trethdalwr gymell ACC i gwblhau ymchwiliad yw gwneud cais i'r tribiwnlys ac roedd o'r farn y dylid ystyried proses arall sy'n osgoi cost achos tribiwnlys.²⁰⁹

229. Croesawodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y bwriad i ddod ag ACC o fewn ei awdurdodaeth ac roedd yn disgwyl y byddai gan ACC weithdrefn briodol i ymdrin â chwynion.²¹⁰

230. Dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nad oedd ei rôl ynghylch trefniadau tribiwnlys ar gyfer casglu a rheoli trethi

²⁰⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 509, 1 Hydref 2015

²⁰⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 289, 7 Hydref 2015

²⁰⁸ ibid

²⁰⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 03

²¹⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 06 gwybodaeth ychwanegol

datganoledig wedi'i hystyried hyd yn hyn. Fodd bynnag, mewn perthynas â thribiwnlys yn ymwneud ag ACC dywedodd yr ymddengys fod cymhlethdod.²¹¹ Aeth ymlaen i ddweud:

“As I understand it, it is intended to enter into an arrangement with the UK’s Ministry of Justice (MoJ) and use that Ministry’s two-tier tax tribunal system. As the MoJ is a non-devolved government department, the question arises as to whether maladministration complaints about MoJ administered tribunals are ones that should come within the PSOW’s jurisdiction (as these are devolved matters), or the jurisdiction of the Parliamentary Ombudsman (who considers complaints about the MoJ and the staff of its tribunals). I would venture that this is a question for those with a role in advising upon ‘devolved competence’ matters to provide a view.”²¹²

Rhan 9: Ymchwilio i droseddau

231. Mae Adran 183 yn darparu ar gyfer diwygio *Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984*²¹³ (DHTd) er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn cymhwyso darpariaethau penodol DHTd i ymchwiliadau ACC i droseddau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Byddai hyn yn galluogi ACC i ddefnyddio pwerau penodedig yn DHTd wrth ymchwilio i droseddau amrywiol, megis y troseddau a grëir yn y Bil hwn, yn ogystal â'r rheini a sefydlwyd gan Ddeddf Twyll 2006, neu'r drosedd cyfraith gyffredin o dwyllo cyllid y wlad.”²¹⁴

232. Mewn perthynas â phwerau ymchwilio a gorfodi, dywedodd Cyllid yr Alban mai ei fan cychwyn oedd ystyried y pwerau sydd gan CThEM. Dywedodd wrth benderfynu a ddylid eu mabwysiadu ai peidio, roedd yn ystyried a oeddent yn angenrheidiol, yn briodol ac yn gymesur mewn perthynas â'r ddwy dreth ddatganoledig gyntaf.²¹⁵ Aeth ymlaen i ddweud:

²¹¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 06 gwybodaeth ychwanegol

²¹² *ibid*

²¹³ www.legislation.gov.uk/ukpga/1984/60/contents

²¹⁴ Memorandwm Esboniadol

²¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 94, 1 Hydref 2015

“... for example, the basic powers to enter premises to require the production of documents, those standard investigative powers—the powers that were given in the Revenue Scotland and Tax Powers Act 2014 to Revenue Scotland are more or less identical to the corresponding powers that HMRC have. But we haven’t provided Revenue Scotland with what you might call the top of the range powers in relation, for example, to intrusive surveillance, because we didn’t think that that was either necessary or appropriate in relation to the two taxes for which Revenue Scotland are responsible.”²¹⁶

233. Cadarnhaodd Cyllid yr Alban ei fod yn rhannu data â CThEM o dan delerau *Deddf yr Alban 2012*.²¹⁷ Er ei fod yn cydweithio â CThEM mewn nifer o feysydd, dyweodd fod Cyllid yr Alban yn cynnal eu hymchwiliadau a’u gwaith cydymffurfio eu hunain. Fodd bynnag:

“If we uncover anything that looks like it might have implications for other UK taxes, we would notify them and, if they uncover something that might have implications for one of the devolved taxes, they would notify us and, generally, there’s a good cross-border co-operation.”²¹⁸

234. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn fodlon bod y pwerau yn y Bil yn ailadrodd pwerau CThEM. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr:

“the Bill seeks to replicate existing powers across England and Wales. So, we have no strong feeling in terms of additional powers and also there will be a bedding-in period, both in relation to these two new taxes, which will be following on very quickly now from this legislation, and also looking ahead.”²¹⁹

235. Cytunodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ei bod yn ymddangos bod y pwerau’n ailadrodd yr hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd er nad oedd yn dweud dim am ychwanegu at y pwerau hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nodwyd y byddai ACC yn gorff newydd ac efallai y byddai Llywodraeth Cymru am adolygu perfformiad ACC os oes diffygion o ran pwerau ymchwilio. Aeth ymlaen i ddweud:

²¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 94, 1 Hydref 2015

²¹⁷ www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/11/contents/enacted

²¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 100, 1 Hydref 2015

²¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 477, 7 Hydref 2015

“I think there needs to be some recognition, perhaps after three years of operation, that there is a review that could identify things that need to be added or amended in a legal sense.”²²⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

236. Cadarnhaodd y Gweinidog o dan Ran 4 yn ymwneud â phwerau ymchwilio fod lefel uchel o gysondeb â CThEM a Chyllid yr Alban.²²¹

Fodd bynnag, roedd y Gweinidog yn teimlo y gwnaed gwelliannau o ran trefniadau, manylion am sut y mae'r pwerau'n gweithredu a mesurau diogelu ar gyfer trethdalwyr. Rhoddodd enghreifftiau:

- Adran 84, gall ACC ddyroddi hysbysiadau trethdalwr yn gofyn am wybodaeth gyda chymeradwyaeth tribiwnlys yn unig; nid oes angen awdurdodiad gan dribiwnlys ar CThEM a Chyllid yr Alban er mwyn gwneud hynny;
- Adran 101, gall ACC gynnal archwiliad o eiddo busnes o dan rai amgylchiadau, ond dim ond drwy gytundeb meddiannydd y fangre neu drwy gymeradwyaeth y tribiwnlys y gall wneud hyn. Mewn rhai amgylchiadau, gall Cyllid yr Alban a CThEM gynnal yr arolygiadau hynny heb orfod cael cytundeb y meddiannydd a heb gymeradwyaeth y tribiwnlys;
- Mae adrannau 92 a 106 yn darparu, lle mae'r tribiwnlys yn awdurdodi'r defnydd o unrhyw bwerau o dan Ran 4 i ofyn am wybodaeth neu i archwilio eiddo, mae'r awdurdodiad hwnnw yn ddilys am uchafswm o dri mis. Nid oes terfyn amser cyfatebol yn neddfwriaeth y DU nac yn neddfwriaeth yr Alban.²²²

Ein barn ni

237. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan bod Rhannau 3 – 9 yn seiliedig ar ddeddfwriaeth y DU ac yn gyson â hynny.

238. Mae'r pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth mewn perthynas â phennu terfyn amser yn rhagnodi pa mor hir sydd gan ACC i wneud penderfyniad o dan adran 71 *Rhoi effaith i hawliadau a diwygiadau*. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn mai dull arall o ran ymdrin â therfyn amser fyddai i ACC gyhoeddi Datganiad Ymarfer fesul treth yn

²²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 333, 7 Hydref 2015

²²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 223, 17 Medi 2015

²²² Cofnod y Trafodion, paragraff 228, 17 Medi 2015

debyg i'r hyn a gyhoeddir gan CThEM.²²³ Dylai hyn roi hyblygrwydd yn achos trethi unigol a rhoi sicrwydd ynghylch amserlenni ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.

239. Mae'r Pwyllgor yn credu bod trefniadau amser i dalu yn cynnig ffordd effeithiol o gasglu treth gan gwsmeriaid na allant fforddio talu ar y dyddiad dyledus ond sy'n gallu talu dros gyfnod penodol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cytuno â mwyafrif yr ymatebwyr y dylai trefniadau amser i dalu fod yn bŵer dewisol ac na ddylid ei gynnwys ar wyneb y Bil.

240. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a thriwlynlysoedd wedi'i hystyried yn llawn a bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi dweud yr ymddengys fod cymhlethdod. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod y ddeddfwriaeth amrywiol mewn perthynas â thriwlynlysoedd yn gymhleth ac y dylai'r maes hwn gael ei adolygu gan gyflwyno gwelliannau perthnasol i'r Bil os bydd angen gwneud hynny.

241. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y pwerau o dan Ran 9 *Ymchwilio i droseddau* yn briodol ac yn gyson â phwerau ymchwilio a gorfodi CThEM. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Gweinidog ystyried adolygu'r pwerau hyn pan fydd y trethi wedi'u sefydlu ac yn weithredol am nifer o flynyddoedd.

Argymhelliad 24: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Awdurdod Cyllid Cymru yn cyhoeddi Datganiad o Ymarfer fesul treth i sicrhau hyblygrwydd yn achos trethi unigol wrth ddarparu sicrwydd ynghylch amserlenni i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Argymhelliad 25: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth ymdrin â chwynion yn erbyn Awdurdod Cyllid Cymru ac mewn perthynas â threfniadau triwlynlys ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig ac yn cyflwyno gwelliannau os bydd hynny'n briodol.

²²³ Mae Datganiadau Ymarfer CThEM yn esbonio eu dehongliad o ddeddfwriaeth a'r ffordd y mae'r Adran yn cymhwyso'r gyfraith yn ymarferol. Nid ydynt yn effeithio ar hawl trethdalwr i ddadlau dros ddehongliad gwahanol, os bydd angen gwneud hyn mewn apêl i driwlynlys annibynnol.

12. Goblygiadau ariannol y Bil

Cefndir

242. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi y bydd cwmpas a graddfa llawer o swyddogaethau ACC yn dibynnu ar benderfyniadau Gweinidogol, yng nghyd-destun y polisi a'r ddeddfwriaeth sy'n datblygu ar Dreth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi ac, yn hynny o beth, bydd y gofyniad o ran staff a seilwaith yn amrywio, yn dibynnu ar y penderfyniadau Gweinidogol diweddarach hyn. Mae'n parhau:

“Ochr yn ochr â hyn, bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i ddatblygu amcangyfrifon costau ar gyfer gweithredu'r rolau hyn gyda phartneriaid posibl, ac yn cytuno ar rolau yn seiliedig ar gost-effeithiolrwydd. Bydd y wybodaeth am gostau'n dod ar gael dros amser, wrth i gwmpas a maint y rôl gael eu hegluro ochr yn ochr â'r darpariaethau deddfwriaethol ar LTT a LDT, a bydd yn cael ei chyhoeddi ar adeg briodol.”²²⁴

243. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol yn datgan ei bod yn anodd rhoi amcangyfrif cadarn o gostau sefydlu a rhedeg ACC ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys costau ar gyfer sefydlu Cyllid yr Alban sy'n cael ei ystyried fel “sefydliad y gellir ei gymharu”, er nad yw'r costau wedi'u haddasu ar gyfer Cymru.²²⁵

244. Mae adran 22 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru dalu i ACC am ymgymryd â swyddogaethau casglu a rheoli trethi. Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r swm, yr amseroedd talu ac unrhyw amodau talu sy'n briodol yn eu barn hwy.

245. Mae Adran 23 yn nodi y caiff ACC roi gwobr i berson yn dâl am wasanaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau; am ddarparu gwybodaeth sy'n arwain at gasglu trethi nas datganwyd, er enghraifft.

²²⁴ Memorandwm Esboniadol

²²⁵ *ibid*

Tystiolaeth gan ymatebwyr

Costau sefydlu ACC

246. Dywedodd Cyllid yr Alban ei fod yn rhedeg fwy neu lai yn ôl y disgwyl ers iddo ddechrau gweithredu. Cadarnhaodd y bu rhai costau ychwanegol yn ymwneud â gweithredu, sef costau staff ychwanegol yn bennaf.²²⁶

247. Roedd sawl ymatebydd yn pryderu nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys amcangyfrif o gost sefydlu ACC, dim ond y costau cyfatebol yng Nghyllid yr Alban. Dywedodd IEACW:

“It is a cause for concern, in the sense that the Welsh Government is entering into an area of unknown. The WRA we believe is essential for this process. So, this is about ensuring that it is set up in the most efficient and appropriate way. It mustn't be under-resourced, but at the end of the day, as we're delegating the actual collecting activities then there should be some certainty about the management and collection through that delegation.”²²⁷

248. Pwysleisiodd y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel hefyd yr angen i ACC gael digon o gyllid i fod yn effeithiol a chyflawni ei amcanion ac y dylai'r cyllid gael ei fonitro'n rheolaidd oherwydd:

“if there is insufficient funding this could potentially result in taxpayers losing confidence with the new system which may lead to less compliance, placing additional burdens on the WRA and possibly affecting any decisions to devolve further taxes in the future.”²²⁸

249. Roedd CLILC yn teimlo ei bod yn bwysig bod maint ACC a'i gostau yn gymesur â maint y trethi sy'n cael eu datganoli i Gymru. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod angen i ACC fod yn addas ar gyfer y posibilrwydd o ddatganoli rhagor o drethi.²²⁹ Dywedasant:

“I think a particular concern is because these are existing taxes that are being devolved, that funding will be taken off the Welsh block grant. So, anything that means that there's more

²²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 73, 1 Hydref 2015

²²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 307, 7 Hydref 2015

²²⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 01

²²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TCM15

cost involved, even if you manage to keep the yield the same, will mean that there will be less resource available to fund services at the end of the day. So, yes, we have concerns about the size and the range of the costs that are included within the explanatory memorandum, if that's indicative of where they're heading."²³⁰

Cost dirprwyo

250. Cadarnhaodd CThEM y bydd yn trafod gofynion gweinyddu'r Dreth Trafodiadau Tir gyda Llywodraeth Cymru yn fanylach yn yr hydref ac y bydd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i baratoi costau cychwynnol cyn y ddadl Cyfnod 1 ar y Bil. Dywedodd:

"these costs will continue to be developed and refined on an ongoing basis."²³¹

251. Mewn tystiolaeth bellach dywedodd CThEM y byddai angen newidiadau i'w systemau i weithredu'r Dreth Trafodiadau Tir newydd, fel cyflwyno tablau a rhyddhad trethi gwahanol a rhannu data Treth Trafodiadau Tir ag ACC. Dywedodd y gallai costau eraill godi gan gynnwys amser staff wrth brosesu ffurflenni, cyflwyno cosbau a mynd ar drywydd dyledwyr a gwaith yn ymwneud â chynnal gweithgarwch cydymffurfio ar gyfer y dreth newydd. Cadarnhaodd:

"Any cost savings that HMRC incurs from no longer administering Stamp Duty Land Tax (SDLT) and Landfill Tax in Wales will be passed onto the Welsh Government."²³²

252. Gofynnodd y Pwyllgor i CLILC ai dirprwyo swyddogaethau i CThEM oedd y dull mwyaf costeffeithiol o gasglu trethi. Dywedodd CLILC ei bod yn debygol mai dyma'r ffordd fwyaf costeffeithiol, i ddechrau.²³³

253. Roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr yn argymhell y dull o ddefnyddio CThEM oherwydd y byddai'n cadw costau i lawr am eu bod eisoes wedi'u sefydlu; mae trefniadau eisoes wedi'u sefydlu gyda chyfreithwyr unigol, a'r holl systemau TG yn eu lle.²³⁴

²³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 122, 15 Hydref 2015

²³¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 13

²³² Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 13 gwybodaeth ychwanegol

²³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 93, 15 Hydref 2015

²³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 467, 7 Hydref 2015

254. Roedd y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel yn pryderu na ddylai sefydliadau sy'n casglu trethi gael cydnabyddiaeth ariannol ar sail taliad yn ôl canlyniadau. Maent yn argymhell bod unrhyw sefydliad yn cael ei dalu'n annibynnol ar y swm y mae'n ei gasglu.²³⁵

255. Ar y mater hwn, gofynnodd y Pwyllgor i CThEM a yw'n bwriadu codi ffi sefydlog ar gyfer casglu trethi Cymru, neu ffi amrywiol yn seiliedig ar nifer y trafodiadau. Dywedodd:

“In line with the Treasury Statement of Funding Policy, HMRC intend only to pass on the additional costs that arise as a result of this work, rather than charging a fixed fee. The precise arrangements for this will be governed by a Memorandum of Understanding to be agreed between the Welsh Government and HMRC (to 2018), and a partnership agreement with the Welsh Revenue Authority from then.

“Where HMRC charges for its services, it does so (following HM Treasury policy) at the full cost of providing the service, seeking to make clear the breakdown of the calculation. Full cost is based on the average salary cost for the relevant grade plus per capita overheads such as superannuation, HR, accommodation and finance costs. Where costs are incurred under contract by third parties, including HMRC's IT supplier, these will be charged at cost.”²³⁶

256. Wrth drafod ei rôl bosibl o ran cynorthwyo ACC i ddarparu gweithdrefn cydymffurfio a gorfodi mwy effeithiol i Dreth Gwarediadau Tirlenwi, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod angen cydnabod y byddai unrhyw rôl ychwanegol yn faich newydd ac y bydd yn disgwyl cael ei gyllido'n llawn.²³⁷

257. Pan ofynnwyd a oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi amcangyfrif y costau i wneud y gwaith hwn, dywedwyd ei bod yn anodd cyfrifo hyn am nad oedd yn glir ynghylch ei rôl bosibl a'r cwmpas ar gyfer y dyfodol. Aeth ymlaen i ddweud:

“I am aware that the Minister for Finance and Government Business will be making a statement in relation to costs towards the end of autumn, and hopefully there will be more

²³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 461, 1 Hydref 2015

²³⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 13 gwybodaeth ychwanegol

²³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 313, 1 Hydref 2015

detail contained within that. As part of that, we'll obviously be able to provide information in terms of how much it costs to undertake activities so that it meets our agreed understanding as to what our role will be for the future."²³⁸

Costio dull digidol yn bennaf

258. Dywedodd CBS Rhondda Cynon Taf, ar sail ei brofiad ef:

“it's not going to be cheap to set up a digital-by-default system, which is going to be for a relatively small number of transactions per annum—50,000-odd.”²³⁹

259. Dywedodd fod angen i'r dadansoddiad cost a budd a'r enillion ar fuddsoddiad gael eu hystyried yn ofalus cyn bod adnoddau'n cael eu gwario ar fuddsoddi'n drwm mewn technoleg, ac nad yw hynny'n rhad ym mhrofiad y Cyngor.²⁴⁰

260. Fodd bynnag, roedd Cyngor Caerdydd yn teimlo os yw'r buddsoddiad yn gywir, gellid lleihau'r costau rhedeg gwirioneddol yn sylweddol bob blwyddyn. Dywedodd:

“We're already investing in Cardiff in digitising services, and we have forms available on our Cardiff council website, where customers complete them online. We don't manually touch that form; it automatically updates into our back office systems for council tax and produces revised bills and things, so we're moving forward in that digitisation age. And, I think, with the Welsh revenue authority, we should certainly explore those opportunities...you are dealing with a different client group—companies that should be fairly confident using the internet.”²⁴¹

Refeniw a godir gan drethi datganoledig

261. Dywedodd Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig y byddai'n eithaf peryglus ceisio pennu lefel ariannol fypwyol gan bennu terfyn ar gyfer cyfran y refeniw a godir drwy drethi datganoledig a fyddai drwy gostau casglu. Dywedasant:

²³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 401, 1 Hydref 2015

²³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 15 Hydref 2015

²⁴⁰ *ibid*

²⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 15 Hydref 2015

“There are examples—I’ve not been able to track down specific evidence, but anecdotally, capital gains tax in the UK, initially, cost more to collect than it did actually raise, but the point was it acted as a safety valve to prevent all sorts of other tax avoidance, and there would be similar examples elsewhere... Obviously, that’s a completely different situation to something like landfill tax or a land transaction tax, which is simply designed to raise revenue, and if that’s been delegated and the delegated authority is costing more to run it than it’s collecting, then that’s an issue and will need to be dealt with through governance there.”²⁴²

262. Cytunodd Cyngor Caerdydd y byddai ychydig bach yn wirion pe bai'r gost gasglu yn uwch na'r enillion gwirioneddol drwy gasglu. Roedd yn cydnabod y gall fod rhesymau eraill dros godi neu drethu i newid ymddygiad, gan gynnwys rhesymau amgylcheddol, ond ar gyfer y rhan fwyaf o drethi, mae'n ymwneud â chynhyrchu incwm.²⁴³

Talu gwobrau

263. Dywedodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr nad oedd adran 23 sy'n rhoi pŵer i ACC “roi gwobr i berson yn dâl am wasanaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau” yn glir o ran pwy allai dderbyn gwobr o'r fath o gymharu, er enghraifft, â thâl neu daliad am wasanaethau a wneir. Dywedodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr y byddent yn croesawu eglurhad o ran graddau'r pŵer hwn a lle y byddai'n briodol ei ddefnyddio.²⁴⁴

264. Cytunodd y Sefydliad Siartredig Trethiant fod yr adran hon yn eang ei chwmpas ac y dylai gael ei chyfyngu i faterion fel gwobrwyo hysbyswyr os mai dyna yw'r bwriad.²⁴⁵

Tystiolaeth gan y Gweinidog

265. O ran sefydlu ACC, dywedodd y Gweinidog ei bod yn anodd darparu costau diffiniol ar y cam hwn. Dywedodd ei bod wedi ystyried y gost o sefydlu Cyllid yr Alban, sef rhwng £4m a £5m a £3m o ran

²⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 312, 7 Hydref 2015

²⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 101, 15 Hydref 2015

²⁴⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 09

²⁴⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, TCM 10

costau rhedeg blynyddol. Roedd yn teimlo ei bod yn anochel y byddai costau sefydlu ACC fwy neu lai yr un peth ag ar gyfer Cyllid yr Alban.²⁴⁶

266. Mewn tystiolaeth bellach, rhoddodd y Gweinidog amcangyfrif cychwynnol o gostau sefydlu, sef £4.8m-£6.3m dros y cyfnod 2016/17 i 2018/19. Gydag amcangyfrif y bydd y costau gweithredu yn £2.8m-£4m y flwyddyn, gan ddechrau yn 2018/19.²⁴⁷

267. Mewn perthynas â'r ffigurau hyn dywedodd y Gweinidog ei bod yn darparu ystod, yn hytrach na ffigur penodol, i adlewyrchu graddau'r ansicrwydd sy'n weddill ynglŷn â rhai elfennau o'r trefniadau.²⁴⁸

268. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pryd y byddai'n gwneud penderfyniad terfynol ar ddirprwyo swyddogaethau ACC i CThEM a Cyfoeth Naturiol Cymru a phryd y byddai'r gyllideb a'r costau rhedeg yn cael eu cytuno. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn cynnal trafodaethau agos gyda CThEM a Cyfoeth Naturiol Cymru ond mai cyfrifoldeb Llywodraeth nesaf Cymru fyddai rhagnodi mewn rheoliadau i bwy y gall ACC ddirprwyo swyddogaethau ffurfiol iddynt. Dywedodd mai'r pwyslais ar hyn o bryd yw egluro eu rolau, paratoi, ac edrych ar y gofynion cychwynnol ar gyfer dirprwyaethau o'r fath.²⁴⁹

269. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai costau casglu ACC ar gyfer cynnal ei swyddogaethau'n cael eu talu gan Weinidogion Cymru fel y nodir yn adran 22. Dywedodd y byddai ar wahân i'r refeniw treth a gesglir gan ACC a fyddai'n cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru.²⁵⁰

270. Pan gafodd ei holi ymhellach ynghylch a fyddai'n fwy priodol cyllido ACC fel llinell ar wahân yn y gyllideb flynyddol, dywedodd y Gweinidog:

“the WRA, of course, will be undertaking a function for the Welsh Government and, therefore, it will, as I've said, be funded through the Welsh Government budget. That means that the WRA's budget will be set by Welsh Ministers, it will be scrutinised and it will be part of the budget process. It will be scrutinised and voted on by the Assembly, as part of the wider

²⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 204 a 206, 17 Medi 2015

²⁴⁷ FIN(4)-26-15 P3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, 4 Tachwedd 2015

²⁴⁸ FIN(4)-26-15 P3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, 4 Tachwedd 2015

²⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 22, 21 Hydref 2015

²⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 210, 17 Medi 2015

Welsh Government budget. So, it would be very clearly a separate line.”²⁵¹

271. Ym marn y Gweinidog, nid yw'n angenrheidiol cael gofyniad cyfreithiol y dylai unrhyw drethi newydd adennill y costau yr eir iddynt.²⁵²

Ein barn ni

272. Mae'r Pwyllgor yn siomedig gyda'r diffyg gwybodaeth ariannol a oedd ar gael pan gafodd y Bil ei gyflwyno, a oedd yn golygu nad oedd yn bosibl i'r Pwyllgor gymryd tystiolaeth hyddysg gan ymatebwyr am y goblygiadau ariannol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog bellach wedi darparu costau sefydlu a gweithredu ACC. Fodd bynnag, nid yw'r Gweinidog wedi darparu unrhyw resymeg na chyfiawnhad ynghylch sut y mae'r terfynau isaf ac uchaf wedi'u cyfrifo.

273. At hynny, mae'r Pwyllgor yn siomedig nad oes unrhyw gostau amcangyfrifedig a chostau rhedeg wedi'u cyllido wedi'u paratoi ar gyfer cyrff dirprwyedig a fydd yn gwneud gwaith ar ran ACC. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod hwn yn faes sy'n dod i'r amlwg ac nad yw manylion llawn unrhyw bartneriaethau dirprwyo wedi'u cadarnhau ar eu ffurf derfynol eto, byddai amcangyfrif o'r costau hyn wedi cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo ystyried y Bil.

274. Mae Adran 22 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gyllido ACC o ran ei gostau gweithredol. At ddibenion cyllido mae'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn rhoi ACC yn yr un sefyllfa â chyrff a noddur gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn pryderu pa mor briodol yw'r llwybr cyllido hwn ar gyfer statws ACC fel adran anweinidogol. Felly, credwn mai ffordd fwy priodol o lunio hyn fyddai cyfeirio'n benodol at ACC yn adran 124 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* fel "person perthnasol" gan sicrhau bod amcangyfrif ACC yn gofnod ar wahân yn y cynnig cyllideb blynyddol a gyflwynir gan Weinidogion Cymru o dan adran 125 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Bydd y dull hwn o gyllido ACC yn caniatáu iddo gael cyllid yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, gan sicrhau bod ACC yn cael ei gyllido mewn ffordd debyg i CThEM.

²⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 216, 17 Medi 2015

²⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 64, 17 Medi 2015

275. Os nad yw'n bosibl cael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio adran 124 o Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai cyllideb ACC gael ei nodi ar wahân a'i neilltuo yng nghynnig blynyddol cyllideb Llywodraeth Cymru.

276. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r ddarpariaeth o dan adran 24(1) sy'n ei gwneud yn ofynnol i ACC dalu treth a gesglir i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r pwyllgor o'r farn, yn unol ag arfer gorau a'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer y grant bloc, na ddylai adnoddau o'r fath gael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru nac unrhyw gorff cyhoeddus arall hyd nes y bydd y Cynulliad Cenedlaethol wedi pasio cyllideb yn awdurdodi eu tynnu allan a'u defnyddio.

277. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y gwobrau y caniateir eu talu o dan adran 23 yn gost sy'n cael ei gwario wrth gasglu trethi. Ni chaniateir i CThEM a Chyllid yr Alban drin gwobrau fel didyniad o'r symiau a delir i'r priod gronfeydd cyfunol. Yn hynny o beth, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai darpariaeth ar gyfer gwobrau gael ei chynnwys yn amcangyfrif ACC ac y dylent fod yn destun craffu ac awdurdodi drwy'r broses cynnig blynyddol am y gyllideb. Heb y diogelwch hwn ac o dan amgylchiadau eithafol, mae'r Pwyllgor yn credu y gallai ACC dalu gwobrau o unrhyw werth (hyd at swm y dreth ychwanegol a gesglir) heb awdurdodi gwariant o'r fath.

278. Mae'r Pwyllgor yn nodi er mai prif ddiben polisi treth yw codi refeniw, byddai'n anarferol i unrhyw dreth ymwneud â chreu incwm yn unig heb ryw fath o resymeg polisi neu effaith ymddygiadol. Mae'r Pwyllgor yn credu er nad ddylai'r gost gasglu fod yn uwch nag enillion gwirioneddol y dreth, mae'n anodd rhoi ffigur ar hyn oherwydd addasu ymddygiad fydd nod rhai trethi. Serch hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Gweinidog fonitro cost casglu ac adolygu os bydd y costau casglu yn fwy nag enillion y ffurflen dreth.

279. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dull a gynigir gan Gyngor Caerdydd mewn perthynas â digideiddio gwybodaeth a'r arbedion y gallai hyn eu cynhyrchu. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai ACC ystyried y cyfleoedd ar gyfer digideiddio wedi'i integreiddio'n llawn yn hytrach na dim ond cynnig gwasanaeth ar-lein i gwsmeriaid. Gallai gwasanaeth ar-lein syml greu gwaith ychwanegol i staff ACC o ran prosesu a mewnbynnu'r wybodaeth. Dylid cynnal dadansoddiad cost a budd llawn i sicrhau manteision unrhyw wasanaeth ar-lein/digideiddio.

Argymhelliad 26: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r diffiniad o wobrau gael ei egluro ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 27: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i sicrhau na chaniateir i Awdurdod Cyllid Cymru drin gwobrau fel didyniad o'r symiau a delir i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru.

Argymhelliad 28: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid rhoi darpariaeth a fyddai'n trin Awdurdod Cyllid Cymru fel "person perthnasol" ychwanegol yn adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn lle adran 22 o'r Bil. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau os bydd diwygiad i adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei gytuno gan y Cynulliad Cenedlaethol, y byddai'r Bil yn gallu cael ei basio yng Nghyfnod 4.

Argymhelliad 29: Os nad yw'n bosibl cael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyllideb Awdurdod Cyllid Cymru yn cael ei nodi ar wahân a'i neilltuo yng nghynnig blynyddol cyllideb Llywodraeth Cymru.

Atodiad A - Rhyngweithio rhwng trethi datganoledig a threthi ar draws y DU

Deddfwriaeth

Mae'r nodyn hwn wedi'i baratoi gan Gyngorydd Arbenigol y Pwyllgor.

Mae treth dir y dreth stamp (a'r dreth trafodiadau tir arfaethedig) yn dreth drafodiadau ac yn hynny o beth mae wedi'i hintegreiddio i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cwmpasu trethi trafodiadau eraill. Mae llawer o dermau, fel "partneriaeth", "rheolaeth hon", "person cysylltiedig", "cwmni", "elusen" ac ati wedi cael eu diffinio mewn deddfau trethierail a deddfau eraill nad ydynt yn ymwneud â threthi ac mae gan y dehongliad (statudol ac yn seiliedig ar ganllawiau CThEM) o'r termau hyn oblygiadau i dreth dir y dreth stamp a threthi eraill. O ganlyniad, mae'n angenrheidiol ystyried cwmpas y termau a'r trethi hyn wrth ystyried cymhwyso treth dir y dreth stamp. Oni bai mai'r bwriad yw diffinio'r **holl** dermau i'w defnyddio ar gyfer y dreth trafodiadau tir, nid yw'n bosibl "clustnodi'r" trethi datganoledig. Nid yw hyn wedi'i wneud ar gyfer Treth Drafodiadau Tir ac Adeiladau yn yr Alban a thybiwn na fydd yn cael ei wneud ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir.

Rheoli achos - ymholiadau treth

Yn ymarferol ni fyddai'n bosibl i'r trethi datganoledig gael eu rheoli fel is-set ar wahân o weithgarwch CThEM oni bai bod swm enfawr o wybodaeth y gellir cael mynediad ati o gorff cyffredinol CThEM i'r uned ar wahân. Deallir bod CThEM dim ond yn disgwyl creu uned fach o fewn Trethi Stamp i ymdrin â phrosesu ffurflenni treth.

At hynny, cydnabyddir yn gyffredinol bod gan CThEM gyfyngiadau o ran adnoddau. Felly mae ymholiadau treth yn cael eu rheoli er mwyn manteisio i'r eithaf ar y sgiliau arbenigol sydd ar gael. Mae achosion yn cael eu hasesu o ran risg a'u blaenoriaethu ar sail yr angen i sicrhau bod yr ymholiad yn effeithiol ac yn effeithlon. Deallir nad oes gan Drethi Stamp yr adnoddau i reoli ymholiadau sy'n pontio nifer o drethi ac felly mannau eraill sy'n arwain yn hynny o beth. Mae hyn yn wir gyda nifer mawr iawn o achosion: fel arfer, nid yr ongl treth dir y dreth stamp yw'r prif fater. Yn anochel, lle ceir anghydfod o ran y defnydd cywir o'r deddfwriaeth dreth i drafodiad bydd angen i'r person sy'n arwain yr ymholiad ystyried effaith nifer o drethi.

Wrth i achos agosáu at ymglyfreitha, mae'n angenrheidiol i'r partion gytuno ar y pwyntiau i'w dadlau yn y Llys. Ar y cam hwn bydd yn angenrheidiol sicrhau cysondeb - ni fydd yn bosibl, er enghraifft, dadlau bod partneriaeth ar gyfer treth incwm ond nid ar gyfer treth dir y dreth stamp / treth trafodiadau tir oni bai bod y ddeddfwriaeth yn rhag-weld yn benodol driniaeth wahanol ar gyfer pob treth. Ymhellach, byddai'n anarferol i achos gael ei glywed a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Llys edrych ar nifer fawr o faterion gwahanol. Byddai angen gwneud dewis o ran y mater(ion) technegol i fyd ar eu trywydd - byddai'r gweddill yn cael eu rhoi i'r naill ochr am nifer o flynyddoedd. Rydym, er enghraifft, yn ymwybodol o ddadl ynghylch y swm priodol o dreth ar eiddo sy'n gysylltiedig â masnachu (bwyta, gwestai, tafarnau, cartrefi nyrsio ac ati) - gweler enghraifft 1 isod - lle mae nifer mawr o achosion heb eu datrys o hyd ryw saith mlynedd yn ddiweddarach (disgwylir ymglyfreitha rywbryd flwyddyn nesaf).

Enghraifft 1: eiddo cysylltiedig â masnach

Efallai fod trethdalwr wedi caffael bwyty oddi wrth drethdalwr arall am, dyweder, £1.5m ac yn dadlau bod £600,000 ar gyfer yr eiddo a'r balans ar gyfer y busnes. O'r balans, sef £900,000, gellir dadlau bod £100,000 ar gyfer offer a'r gweddill ar gyfer eitemau anniriaethol (trwyddedau, rhestr gwsmeriaid, ewyllys da ac ati).

Bydd goblygiadau'n gysylltiedig â'r dosraniad priodol o ran *lwfansau cyfalaf* (ar gyfer yr offer) o ran y gwerthwr a'r prynwr, *treth enillion cyfalaf neu dreth gorfforaeth ar enillion cyfalaf* ar gyfer y gwerthwr (ar y tir a'r adeilad), *didyniad treth gorfforaeth* (ar gyfer eitemau anniriaethol) i'r prynwr, *cost treth* y tir a'r adeiladau ar gyfer y prynwr ar werthu'r eiddo yn y dyfodol, *treth incwm neu dreth enillion cyfalaf* (ar unrhyw gyfrif benthyciad neu danbrisiad) os oes cysylltiad rhwng y gwerthwr a'r prynwr. Ymhellach, gall fod dadl nad yw'r ffigurau cyfrifyddu yn gywir (weithiau maent yn cael eu defnyddio fel y man cychwyn ar gyfer treth) a gall y trafodiad gynnwys rhai nodweddion anarferol fel rhaniad o ran perchnogaeth y busnes, strwythur Opco/Propco (Cwmni gweithredol/Cwmni eiddo) neu drwydded i feddiannu, fel bod yr eiddo yn cael ei berchenogi ar wahân i'r busnes. Yn olaf, gall y gwerthwr fod yn dadlau dros raniad gwahanol a bydd hyn yn cymhlethu'r ymholiad i CThEM. Mewn achos fel hyn ni fydd Trethi Stamp yn cael blaenoriaeth a bydd CThEM yn pryderu llawer mwy am y posibilrwydd o golli refeniw (yn yr achos penodol hwn ac, yn bwysicach, eraill a all gynnwys yr un pwynt cyfreithiol) o safbwynt y trethi eraill. Mae'n anodd gweld sut na fyddai hyn hyd yn oed yn fwy tebygol lle roedd y cyfaddawd rhwng treth heb ei datganoli a threth ddatganoledig.

Enghraifft 2: partneriaeth

Mae gan ddeddfwriaeth treth dir y dreth stamp reolau penodol ar gyfer trin partneriaethau. Ymhellach, cydnabyddir bod y rheolau hyn wedi'u defnyddio'n helaeth at ddibenion osgoi trethi ac mae'r ddeddfwriaeth wedi'i diwygio'n rheolaidd (bron yn flynyddol) ers cael ei deddfu yn 2004. Mae'n bosibl y byddai CThEM yn dadlau nad oes partneriaeth mewn gwirionedd, fel na all y trethdalwr gael mantais y rheolau *CGT* arbennig ond ar gyfer treth dir y dreth stamp (a threth trafodiadau tir)

byddai'n well dadlau bod Partneriaeth Buddsoddi Eiddo. Mewn achosion eraill, er ei bod yn bosibl bod y trafodiad wedi cynnwys rhywfaint o osgoi treth dir y dreth stamp, efallai mai osgoi trethi eraill (incwm, treth enillion cyfalaf a threth gorfforaeth) yw'r prif faterion a bod Trethi Stamp ond yn cael eu cynnwys os/pan fydd y trethdalwr yn ildio: gall hyn fod flynyddoedd lawer ar ôl cynnal y trafodiad ac efallai wedyn hynny ni fydd yn bosibl cynnal asesiad o ran treth dir y dreth stamp / treth trafodiadau tir.

Enghraifft 3: oherwydd cyflogaeth

Mae deddfwriaeth treth dir y dreth stamp yn benodol yn codi tâl ar werth rhagnodedig pan fydd y trafodiad yn deillio o gyflogaeth y prynwr neu berson sy'n gysylltiedig â'r prynwr. Er enghraifft, gall y cyflogwr ganiatáu i gyflogai feddiannu neu gaffael eiddo cwmni am ystyriaeth enwol (neu ddim). Mewn achos o'r fath dylai treth dir y dreth stamp fod ar werth rhagnodedig. Os nad yw'r trafodiad oherwydd y gyflogaeth yna mae'r ystyriaeth yn gwestiwn o ffaith. Pa un a yw'r trafodiad oherwydd y gyflogaeth yn rhywbeth na fydd Trethi Stamp yn ymwybodol ohonynt yn gyffredinol a hyd yn oed os ydynt yn ymwybodol o gysylltiad posibl, ceir dadleuon technegol y bydd angen eu cyfeirio at adrannau eraill er mwyn cael barn arnynt. Bydd goblygiadau sylweddol o ran *treth incwm ac yswiriant gwladol* i'r prynwr a *TWE*, a goblygiadau *treth incwm a threth gorfforaeth* o ran y gwerthwr (cyflogwr).

Atodiad B - Tystion

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn llawn yn

www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1243

Enw	Sefydliad
<i>17 Medi 2015</i>	
Jane Hutt AC	Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru
Richard Clarke	Rheolwr Prosiectau Gweinyddu Trethi, Llywodraeth Cymru
Sean Bradley	Uwch Gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru
Jeff Andrews	Cynghorydd Polisi Arbenigol sy'n gyfrifol am faterion Cyllid ac Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru
<i>1 Hydref 2015</i>	
Eleanor Emberson	Prif Weithredwr, Cyllid yr Alban
Colin Miller	Arweinydd Tîm y Bil Pwerau Trethi, Cyllid yr Alban
Neil Broadfoot	Swyddog Cyfathrebu, Cyllid yr Alban
Doug Stoneham	Uwch Gynghorydd Polisi, Datganoli, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Geoff Yapp	Dirprwy Gyfarwyddwr, Treth Gorfforaeth, Rhyngwladol a Stamp, Pennaeth Trethi Stamp, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Isobel Moore	Pennaeth Busnes, Rheoleiddio ac Economeg, Cyfoeth Naturiol Cymru
Rebecca Favager	Rheolwr Gwastraff ac Adnoddau, Cyfoeth Naturiol Cymru
John Cullinane	Cyfarwyddwr Polisi Treth, Sefydliad Siartredig Trethiant
Claire Thackaberry	Swyddog Technegol, y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel
<i>7 Hydref 2015</i>	
Martin Warren	Cyfarwyddwr Cymru, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

Jason Piper	Uwch-reolwr Cyfraith Treth a Busnes, Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
Kay Powell	Cynghorydd Polisi, Cymdeithas y Cyfreithwyr
Richard Beech	Partner, Glamorgan Law LLP

15 Hydref 2015

Mari Thomas	Swyddog Polisi Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Nick Jones	Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cyllid Gweithredol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Tara King	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, yr Amgylchedd, Cyngor Dinas Caerdydd
Gary Watkins	Rheolwr Gwasanaethau Refeniw, Cyngor Dinas Caerdydd
Huw Vaughan Thomas	Archwilydd Cyffredinol Cymru
Martin Peters	Swyddfa Archwilio Cymru
Mike Usher	Swyddfa Archwilio Cymru

21 Hydref 2015

Jane Hutt AC	Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru
Richard Clarke	Rheolwr Prosiectau Gweinyddu Trethi, Llywodraeth Cymru
Emma Cordingley	Cyfreithwraig, Llywodraeth Cymru
Jeff Andrews	Cynghorydd Polisi Arbenigol sy'n gyfrifol am faterion Cyllid ac Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru

Atodiad C - Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=183

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel	TCM 01
Archwilydd Cyffredinol Cymru	TCM 02
CLA Cymru	TCM 03
Sefydliad Bevan	TCM 04
Un Llais Cymru	TCM 05
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	TCM 06
Deloitte	TCM 07
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	TCM 08
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr	TCM 09
Sefydliad Siartredig Trethiant	TCM 10
Cyfoeth Naturiol Cymru	TCM 11
Monmouthshire Mediation Practice	TCM 12
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThem)	TCM 13
Cymdeithas y Cyfreithwyr	TCM 14
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	TCM 15
Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig	TCM 16